



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Cymunedau

Dyddiad: Dydd Gwener, 8 Mehefin
2012

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 14 MEHEFIN 2012** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 PENODI IS-GADEIRYDD

Penodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

3 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod hwn.

4 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5 COFNODION (Tudalennau 1 - 8)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar ddydd Iau 12fed Ebrill 2012 (copi'n amgaeedig)

6 ARCHWILIAD ADDYSG GYMUNEDOL OEDOLION ESTYN (Tudalennau 9 - 12)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Perfformiad Effeithlonwydd Ysgol: Uwchradd (copi'n amgaeedig) sy'n manylu darganfyddiadau Archwiliad Estyn o Bartneriaeth Addysg Gymunedol Oedolion Conwy a Sir Ddinbych ac yn gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar argymhellion yr Arolygwyr.

9.45 a.m.

7 GWASANAETHAU BWS A GOSTYNGIADAU (Tudalennau 13 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Adran: Cludiant Teithwyr (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi gwybodaeth ac yn gofyn am sylwadau ar newidiadau i sut ariennir gwasanaethau bws, a fydd yn cael effaith sylweddol ar brisiau a lefelau'r gwasanaeth a ddarperir.

10.15 a.m.

EGWYL

8 EFFEITHIOLRWYDD CAMAU GORFODI - BAW CŴN (Tudalennau 33 - 40)

Ystyried adroddiad gan yr Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi manylion dulliau hanesyddol, presennol a dulliau o rwystro a chanfod baw cŵn yn y dyfodol, ac sy'n gofyn am farn y Pwyllgor ar faterion sy'n ymwneud â chamau gorfodi mewn perthynas â baw cŵn.

11 a.m.

9 LLWYBR MYNEDIAD SENGL I DAI (SARTH) (Tudalennau 41 - 82)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Swyddog Prosiect a'r Swyddog Strategaeth Tai (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed gyda phrosiect cydweithredol Llwybr Mynediad Sengl i Dai (SARTH), ac sy'n gofyn am farn y Pwyllgor ar Fframwaith Cyffredin Dyrannu Tai cyn cychwyn ar ymgynghoriad cyhoeddus.

11.30 a.m.

10 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 83 - 106)

Ystyried adroddiad gan y Cydgysylltydd Craffu (copi'n amgaeedig) yn gofyn am adolygu rhaglen waith y Pwyllgor i'r dyfodol ac yn diweddaru'r aelodau ar faterion perthnasol.

12 p.m.

11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

RHAN II

Dim eitemau

AELODAETH

Y Cynghorwyr

James Davies
Peter Arnold Evans
Carys Guy-Davies
Huw Hilditch-Roberts
Rhys Hughes
Win Mullen-James

Bob Murray
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Huw Williams

Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 6 yn unig)

Ms C. Burgess
Mrs. G. Greenland
Ms. D. Houghton

Dr. D. Marjoram
Mr. J. Saxon

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 12 Ebrill 2012 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr James Davies, Rhys Hughes, David Smith (Cadeirydd) a Cefyn Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Bill Cowie, Y Cyngorydd Gwilym C Evans ac Y Cyngorydd Gwyneth Kensler

PWYNT O SYLW

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cyngorydd Cefyn Williams ar fod yn un o'r pedwar cyngorydd sir yn sefyll yn ddiwrthwynebiad yn etholiadau'r cyngor sir.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, June Cahill, Richard Jones, Peter Owen, Selwyn Thomas a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu a Chymunedau.

2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau personol neu ragfarnol.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys y mater canlynol i'w drafod, sydd angen sylw brys - **B5105 Stryd Mwrog Street, Rhuthun.**

Cyfeiriodd y Cyngorydd Rhys Hughes at y cyhoeddusrwydd negyddol yn ddiweddar ynghylch pryderon diogelwch traffig ar ran o Stryd Mwrog, Rhuthun, y mae ymgyrchwyr yn honni sydd yn rhy gul a pheryglus i gerddwyr. Dywedodd y Rheolwr Adain: Rheoli'r Rhwydwaith y cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar gyda thrigolion i drafod eu pryderon a bod nifer o ddewisiadau yn cael eu hystyried. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd cynghorwyr sir yn rhan o'r cyfarfod oherwydd y cyfnod purdah ac y cytunwyd i ystyried y mater ymhellach ar ôl etholiadau'r cyngor sir.

***PENDERFYNWYD** nodi'r sefyllfa ac y byddai'r pwyllgor yn ystyried y problemau a godwyd ynghylch Stryd Mwrog, Rhuthun ar ôl etholiadau'r cyngor sir sydd i'w cynnal fis Mai 2012.*

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2012.

Materion yn Codi -

Tudalen 5 – Eitem Rhif: 7 Newidiadau i Strategaeth Cefnogi Pobl ar gyfer 2012 / 14 ac i'r Cynllun Gweithredu Cefnogi Pobl ar gyfer 2012 / 13 – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, dywedodd y Cydlynnydd Archwilio fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2012, wedi cytuno ar newidiadau i'r Strategaeth ac i'r Cynllun Gweithredu. Byddai'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau yn ystyried newidiadau i'r Rhaglen Cefnogi Pobl Genedlaethol a Rhanbarthol ar ôl etholiadau mis Mai 2012.

Tudalen 9 – Eitem Rhif: 10 Rhaglen Waith Archwilio – dywedodd y Cydlynnydd Archwilio fod cyfarfod y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i ystyried y cynigion ar gyfer Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru wedi'i ganslo oherwydd na fydd y cynigion wedi'u datblygu tan ddechrau'r haf. Mae'n debyg y byddai pwyllgor archwilio'n ystyried y cynigion cyn eu cyflwyno i'r Cabinet.

PENDERFYNWYD - *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2012 fel cofnod cywir.*

5 ETAPE CYMRU

Cyflwynodd y Prif Swyddog Strategaeth Adfywio a Buddsoddi a'r Rheolwr Adain: Rheoli'r Rhwydwaith adroddiad (a rannwyd o'r blaen) yn hysbysu aelodau am gynnydd y trefniadau ar gyfer y digwyddiad beicio Etape Cymru 2012 ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor ar 1 Mawrth 2012. Roedd y pwyllgor wedi penderfynu o'r blaen i gadarnhau cau ffyrdd er mwyn gallu cynnal y digwyddiad, ond gyda nifer o amodau.

Roedd y gwaith a wnaed ers y cyfarfod diwethaf yn cynnwys -

- Cyfathrebu'n rheolaidd rhwng y Cyngor a Participate Sport (trefnydd y digwyddiad) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Paratoi diweddariad o'r cynllun cyfathrebu (a rannwyd yn y cyfarfod) yn dangos y llwybr a ddewiswyd ac amserau cau Bwlch yr Oerddrws dros dro (er mwyn sicrhau ei fod yn aros ar agor amser cinio). Bydd yn rhaid amseru'n benodol ar gyfer rhai o'r ffyrdd cyfagos a bydd yn rhaid cynhyrchu'r map terfynol yn ystod y pythefnos nesaf.
- Ymgynghorwyd â chynghorau tref / cymuned a chynghorwyr sir ar y llwybr a chyhoeddwyd datganiad i'r wasg (Atodiad 2 i'r adroddiad)
- Ymgynghorwyd a chysylltwyd ag adrannau'r Cyngor a'r Aelodau Arweiniol perthnasol
- cyfarfu'r Grŵp Diogelwch Ymgynghorol i oruchwylio gweithdrefnau rheoli traffig, cludiant a cherddwyr (Atodiadau 3 & 4 i'r adroddiad) a pharatoi cynlluniau ynghylch y problemau ymgynghori, cyfathrebu a rheoli traffig a nodwyd wrth adrodd yn ôl ar ddiwyddiad y llynedd
- dechreuwyd cynnal cyfarfodydd gyda busnesau allweddol i drafod y cyfleoedd iddyn nhw fod yn rhan ac elwa o'r digwyddiad a bwriedir ymweld â busnesau ar y llwybr unwaith y bydd map y llwybr a'r amseroedd yn barod, a
- lansio'r digwyddiad i'r cyfryngau yn Llangollen.

Yn anffodus nad oedd yn bosibl i *Participate Sport* fod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw ond dywedodd swyddogion eu bod yn hyderus fod trefnwyr y digwyddiad yn talu sylw i'r problemau sy'n cael eu nodi fel rhai sydd angen sylw a'u bod wedi addo sicrhau cadw at y cytundebau a gytunwyd ar gyfer y digwyddiad. Pwysleisiodd y Prif Swyddog Strategaeth Adfywio a Buddsoddi hefyd werth cyhoeddusrwydd digwyddiadau fel hyn a'r manteision economaidd a ddaw i Sir Ddinbych fel cyrchfan ymwelwyr.

Roedd yr aelodau'n falch o enw da Participate Sport ac o'i brofiad o drefnu digwyddiadau beicio / chwaraeon ac o glywed am ei drefniadau rhag i'r problemau a gafwyd y llynedd yn y digwyddiad cychwynnol godi eto. Cyfeiriodd y Cyngorydd Rhys Hughes at ei brofiad personol o ymdrin â chynrychiolwyr Participate Sport, yn enwedig mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandysilio, pan gytunwyd newid y llwybr arfaethedig i sicrhau y byddai llai o bobl yn cael eu heffeithio dros gyfnod y digwyddiad. Cadarnhaodd hefyd fod y trefnwyr wedi cyfarfod â busnesau i dawelu'u hofnau ynghylch y digwyddiad. Cadarnhaodd y Rheolwr Adain: Rheoli'r Rhwydwaith y rhoddwyd sicrwydd i fusnesau y byddai Bwlch yr Oerddrws ar agor i draffig erbyn 11.00am er efallai y byddai angen tacluso ychydig ar y llwybr ar ôl yr adeg hynny. Cyfeiriwyd hefyd at ddigwyddiad beicio ar Fryniau Clwyd ac y gellid datblygu llwybrau eraill o ganlyniad i Etape Cymru. Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cyngorydd Gwilym Evans, cadarnhaodd y Rheolwr Adain: Rheoli'r Rhwydwaith nad oedd y cyngor yn rhoi cefnogaeth ariannol i'r digwyddiad ond fod llawer iawn o amser swyddogion yn cael ei dreulio ar helpu trefnu'r digwyddiad a fydd yn cael ei ysgwyddo gan y gwasanaeth.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y cyflwynir adroddiad yn manylu ar effaith y digwyddiad 2012 i'r pwyllgor ei ystyried fis Hydref 2012.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad cynnydd ar y trefniadau ar gyfer digwyddiad beicio Etape Cymru 2012.

6 DIWEDDARIAD AR YMGYSYLLTIAD CYMUNEDOL

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol adroddiad (a rannwyd o'r blaen) yn gofyn am gefnogaeth yr aelodau i ddatblygu methodoleg strwythuredig ar gyfer gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor. Byddai hynny'n ceisio sicrhau y byddai ymgysylltu cymunedol yn rhedeg yn llyfn ac o safon uchel, gyson, ledled y Sir.

O gofio am sylwadau blaenorol y pwyllgor ar y strategaeth ddrafft, roedd adran wedi'i chynnwys ar ymgynghori ac ymgysylltu ag aelodau etholedig (Atodiad 1 yr adroddiad). Cyflwynodd y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar gynnydd y Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol 'Dal i Drafod' gan ymhelaethu ar weithgareddau ymgysylltu penodol, gan gynnwys -

- System Rheoli Ymgynghori Ar Lein - cyflwyno o bosibl, 'dudalen ymgynghori' benodol yn gysylltiedig â'r wefan gyda meddalwedd ar gyfer paratoi arolygon, dadansoddi data a chynhyrchu adroddiadau, a manteision mabwysiadu system o'r fath

- Dulliau newydd o gysylltu â phobl ifanc – cynigion i drefnu i fyfyrwyr ifanc weithredu ar ran y cyngor i gysylltu ac ymgynghori â phobl ifanc eraill gan ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol a'r cyfryngau cymdeithasol mewn sefyllfaoedd cymdeithasol neu mewn mannau ble maen nhw'n cyfarfod yn naturiol.
- Cynllun Cyfathrebu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol – bydd cynllun drafft yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn dangos yr amcanion cyfathrebu cyffredinol: cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gyfathrebu gydag eraill; negeseuon allweddol a chynllun gwaith cyfathrebu.

Bydd y Strategaeth yn cael ei pharatoi ar ffurf hawdd ei ddarllen a bydd ymgynghori pellach yn ei chylch cyn ei mabwysiadu fel canllawiau i wasanaethau ac i aelodau. Roedd y pwyllgor yn croesawu cynnwys adran yn y strategaeth i ymdrin yn benodol ag aelodau etholedig. Wrth drafod yr adroddiad gyda'r Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol, cododd aelodau'r materion allweddol canlynol -

- nid oedd cynghorwyr pob amser yn cael gwybod am faterion sy'n effeithio ar eu wardiau nhw ac mae dulliau'n anghyson
- wrth dynnu sylw aelodau at faterion penodol yn eu wardiau, dylid ystyried hefyd y gymuned ehangach a dylid cysylltu hefyd gydag aelodau etholedig eraill pe gallai'r mater effeithio ar wardiau eraill. Dylid newid Paragraff 9.2 y 'Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol' i sicrhau fod hynny'n digwydd.
- gofynnwyd am gadarnhad fod swyddogion yn ymwybodol o'r protocol ar gyfer cysylltu â chynghorwyr; eu bod yn gallu gweld i ba wardiau y mae aelodau'n eu cynrychioli a bod mapiau clir, gyda ffiniau cywir ar gael yn rhwydd.
- gallai swyddogion fod yn cydweithio â chynghorau tref / cymuned ar weithgareddau penodol a dylid cydnabod efallai nad yw cynghorwyr sir yn ymwybodol o faterion o'r fath ac y dylid rhoi gwybod iddyn nhw
- mae angen sicrhau fod yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael i gynghorau tref / cymuned ar wefan y cyngor gyda dolenni e-bost ble bo'n briodol
- awgrymwyd y dylai Grŵp Cadeiryddion Is-gadeiryddion Archwilio ystyried pa bwyllgor a fyddai orau i archwilio'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Cytunodd y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol i gynnwys cyfeiriadau yn y strategaeth i adlewyrchu sylwadau'r aelodau, i wella cyfathrebu ymhellach gyda chynghorwyr a sicrhau fod swyddogion yn ymwybodol o ofynion y protocol. Soniodd am y bwriad i ymweld ag adrannau i godi ymwybyddiaeth o fodolaeth y strategaeth a'r Siartr rhwng y Cynghorau Tref / Cymuned a'r Cyngor Sir ac o gyfrifoldebau swyddogion ynghylch hynny. O ran cael gwybodaeth, cytunodd y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol i ymchwilio i ba mor gywir yw mapiau'r wardiau a sicrhau fod proses glir i ganfod yn rhwydd pa aelodau ward sy'n cynrychioli ardaloedd penodol. Byddai hefyd yn cadarnhau fod yr wybodaeth a roddir gan gynghorau tref / cymuned wedi'i chofnodi ar wefan Sir Ddinbych. Wrth ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd Rhys Hughes, dywedodd y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol nad oedd unrhyw gynlluniau i uno Grwpiau Aelodau Ardal a fyddai'n gofyn am newid yng nghyfansoddiad y cyngor.

PENDERFYNWYD yn amodol ar sylwadau'r aelodau a fanylir uchod, fod y pwyllgor yn cefnogi'r dulliau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad i ddatblygu methodoleg strwythuredig ar gyfer gweithgareddau ymgynghori a chysylltu'r Cyngor er mwyn sicrhau fod yr Awdurdod yn mabwysiadu dull proffesiynol, cydlynedig a chost effeithiol.

Ar yr adeg yma (10.25am) gohiriwyd y cyfarfod i gael lluniaeth.

7 DOD YN NES AT Y GYMUNED

Cyflwynodd y Cydlynedd Prosiect Trawsffurfio Busnes adroddiad (a rannwyd o'r blaen) yn cyflwyno'r wybodaeth diweddaraf i'r aelodau ar y cynnydd yn y gwaith a wnaed gan y Bwrdd Rhaglen Dod yn Agosach at y Gymuned ers i'r pwyllgor ystyried yr adroddiad diwethaf ar 27 Hydref 2011. Mae Cynllun Gweithredu 'Dod yn Agosach at y Gymuned' (Atodiad 1) wedi'i atodi i'r adroddiad.

Yn dilyn proses resymoli mae'r Cynllun Gweithredu diweddaraf yn cynnwys 29 gweithred ar draws y tri maes blaenoriaeth canlynol -

- (1) Cynrychiolaeth a Chysylltiad – Sut i gysylltu â chymunedau
- (2) Darparu Gwasanaeth – Datblygu'r diwylliant ac agweddau cywir
- (3) Datblygu Cymunedol – Cymuned, Cyfoethogi a Nerthu

Roedd y gweithrediadau wedi'u newid i adlewyrchu sylwadau a phryderon aelodau yn eu cyfarfod ar 27 Hydref. Cyflwynodd y Cydlynedd Prosiect Trawsffurfio Busnes a'r Rheolwr Ymgysylltu Cymunedol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar y materion hynny ac ynghylch y materion pellach a drafodwyd gydag aelodau ynghylch y canlynol -

Rheoli Perthynas y Cwsmer – gwnaed llawer o waith ers mis Hydref a chafodd system fwy cadarn o gofnodi cwynion ac adborth i gwynion ei chyflwyno. Roedd yr aelodau'n falch o gael gwell adborth ac awgrymodd y Cynghorydd James Davies y byddai'n ddefnyddiol rhoi enw cyswllt mewn ymatebion e-byst i gynghorwyr. Gofynnodd y Cynghorydd Gwilym Evans am i restr fisol gael ei hanfon, efallai'n electronig, at gynghorwyr o'r cwynion sy'n cael eu trin ynghylch eu wardiau. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd sicrhau fod pob cynghorydd yn defnyddio'r system Rheoli Perthynas y Cwsmer i gofnodi problemau a chwynion yn hytrach na gofyn i swyddogion unigol ddatrys problemau. O ran Blaenoriaeth 2, Gweithred 2 (tudalen 45 o'r Cynllun Gweithredu) cytunodd y Cydlynedd Prosiect Trawsffurfio Busnes i newid y mesur ynghylch gwella ymatebion y cyngor i gwynion er mwyn dangos yn well y canlyniad sydd i'w gyrraedd.

Adfywio - cafodd gweithrediadau cadarn eu cyflwyno i sicrhau fod y strategaeth ar gyfer cysylltu gyda'r gymuned fusnes yn cael ei darparu ac roedd y rhan fwyaf o gyfarfod diwethaf Bwrdd Rhaglen ynghylch y mater hwnnw. Bydd y dewisiadau ar gyfer pob ardal (Arfordirol, Canolbarth a Dyffryn Dyfrdwy) yn cael eu gwerthuso i sicrhau bod y strategaeth i ymdrin â'r gymuned fusnes yn gadarn ac i ffurfioli cysylltiadau.

Cyllid Cymunedol - bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ynghylch dyrannu cyllid yn well i gymunedau i ddarparu prosiectau. Gan mai newydd ddechrau y mae'r gwaith mae'n debyg y daw'r mater yn ôl i'r pwyllgor hwn i'w ystyried ymhellach. Ail fynegodd yr aelodau'u pryderon nad oes strwythur na chanllawiau ar hyn o bryd i dalu sylw i ddyrannu cyllid a bod y broses ymgeisio feichus yn rhoi ymgeiswyr am brosiectau llai o dan anfantais. Dywedodd y Cydlynnydd Prosiect Trawsffurfio Busnes y byddai'r papur i'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn ceisio talu sylw i ddyrannu cyllid cymunedol i sicrhau proses deg a chyfiawn o nodi prosiectau a datblygu'r meini prawf y bydd yn rhaid eu bodloni cyn y gellir rhyddhau cyllid. Ychwanegodd y byddai'r broses ymgeisio hefyd yn cael ei gwneud yn gliriach.

Dywedodd y Cyngorydd Diana Hannam fod canfyddiad bod y Cyngor yn gwario ar brosiectau yn y Rhyl ar draul rhannau eraill o'r sir, yn rhannol, o bosibl oherwydd y grantiau Ewropeaidd a oedd wedi'u dyrannu i wardiau mwyaf difreintiedig y Rhyl. Er mwyn cael gwared â'r camsyniad hwnnw, gofynnodd am ddadansoddi gwariant y Sir yn gywir i ddangos pa ardaloedd sydd o dan anfantais. Cytunodd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol cael dadansoddiad o'r ffigyrau.

Wrth ystyried y Cynllun Gweithredu, atebodd y swyddogion gwestiynau'r aelodau, yn enwedig ynghylch yr arolwg trigolion, y Gronfa Ddatblygu Gymunedol a'r Fforymau Cymunedol. Eglurodd y Rheolwr Ymgysylltu Cymunedol mai presenoldeb gwan oedd yn y Fforymau Cymunedol, y dylid ystyried rhywbeth arall, efallai yn canolbwyntio rhagor ar feysydd gwasanaeth penodol a fyddai'n cysylltu â'r cymunedau a'r cleientiaid ac â'r gwaith sy'n debyg o gael ei wneud gan gydweithwyr y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ynghylch hynny. Cytunwyd y dylai unrhyw gynigion i ddisodli'r Fforymau Cymunedol cael eu cyflwyno i'r pwyllgor i'w hystyried.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, gofynnodd y Cyngorydd Cefyn Williams a fyddai'n bosibl i aelodau wardiau lleol fod yn bresennol yn Seremonïau Dinasyddiaeth ymgeiswyr yn byw yn Sir Ddinbych. Roedd y cais wedi'i gyflwyno iddo ef gan y Cyngorydd Gwyneth Kensler a oedd yn dweud fod rhai o drigolion Dinbych wedi cymryd rhan yn y Seremoni Dinasyddiaeth ac yn siomedig o weld nad oedd yr aelod lleol yno. Dywedodd y Cadeirydd, y Cyngorydd William Cowie mai'r Arglwydd Raglaw ac yntau (fel Cadeirydd y Cyngor Sir) oedd yr unig swyddogion yn bresennol ac y byddai'n croesawu presenoldeb aelodau lleol. Cefnogodd yr Aelodau'r cynnig hefyd a chytunwyd i godi'r mater gyda'r Rheolwr Cefnogi a Datblygu Aelodau fel y swyddog cyfrifol.

PENDERFYNWYD -

- (a) *yn amodol ar sylwadau'r aelodau a nodir uchod, cefnogi Cynllun Gweithredu Dod yn Agosach at y Gymuned sydd yn Atodiad 1 i'r adroddiad;*
- (b) *cyflwyno adroddiad ar y cynigion drafft ynghylch trefniadau amgen i ddisodli'r Fforymau Cymunedol i'r pwyllgor ym mis Medi neu fis Hydref 2012, a*
- (c) *bod y Rheolwr Ymgysylltiad Cymunedol yn cysylltu â'r Rheolwr Cefnogi a Datblygu Aelodau gyda'r bwriad o gynig cyfle i aelodau lleol fod yn bresennol*

mewn Seremonïau Dinasyddiaeth yn y dyfodol i ymgeiswyr sy'n byw yn Sir Ddinbych.

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Archwilio adroddiad (a rannwyd o'r blaen), yn gofyn i Aelodau adolygu blaen raglen waith y pwyllgor ac yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol. Roedd blaen raglen waith ddrafft (Atodiad 1) a blaen raglen waith y Cabinet (Atodiad 2) a Chynnydd ar Benderfyniadau'r Pwyllgor (Atodiad 3) ynghlwm â'r adroddiad.

Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau ystyried a oedd y pynciau a nodwyd o'r blaen dal yn berthnasol ar gyfer archwilio yn y dyfodol ac i ystyried archwilio ffynonellau gwaith yn y dyfodol yn codi o'r Rhaglen Ymlaen y Rhyl. Wrth ystyried blaen raglen waith y pwyllgor, cwmpasodd yr aelodau y diben a'r canlyniadau a ddisgwylir o nifer o eitemau'r adroddiad yr oeddynt yn dymuno'u harchwilio yn y dyfodol a chytunwyd -

- derbyn adroddiadau ar effeithiolrwydd gweithredu gorfodaeth ynghylch baw cŵn a Chludiant Cyhoeddus yn y Sir (gan gynnwys TAITH a chludiant gwledig) yn gynnar ar ôl etholiadau'r cyngor sir.
- cyfeirio'r eitem ar Ymddygiad Heriol a'i effaith ar wasanaethau'r Cyngor i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau
- derbyn adroddiadau yn y dyfodol ar Ansawdd a Darpariaeth Adnoddau Cymunedol ac Addysg; Cynaliadwyedd Cymunedol; Ardaloedd Perygl Llifogydd o fewn Sir Ddinbych; Adolygu Asedau Treftadaeth a'r Celfyddydau a Gwaredu Adeiladau, Eiddo a Thir y Cyngor
- gohirio ystyried perthnasedd eitemau penodol ar gyfer archwilio yn y dyfodol tan ar ôl etholiadau'r cyngor sir ym mis Mai, mewn perthynas â Mynediad i Gefn Gwlad; Darparu Rheoli Gwastraff i Fusnesau ac Ysgolion; Trosglwyddo Gwasanaethau i Gynghorau Tref; effeithiolrwydd Teledu Cylch Cyfyng a Ffermydd Gwynt
- dileu'r adroddiad a oedd wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2012 ar Ysgol Dinas Brân gan fod y broblem cludiant bron iawn wedi'i datrys
- archwilio'r tri phrif brosiect / ffynonellau gwaith yn codi o'r Rhaglen Ymlaen y Rhyl a neilltuo'u cyfarfod ar 13 Medi 2012 at y diben hwnnw. Gofynnodd Aelodau am i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Nhŷ Russel, y Rhyl a gwahodd sefydliadau allanol sydd â rhan yn y Rhaglen. Gofynnwyd hefyd am dynnu sylw at y cyfarfod i roi cyfle i drigolion lleol fod yn bresennol. Roedd yr aelodau o'r farn y byddai taith o gwmpas y safleoedd allweddol o gwmpas y Rhyl yn ddefnyddiol i'r pwyllgor ar ôl y cyfarfod hwnnw.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y newidiadau a'r ceisiadau uchod, cymeradwyo'r rhaglen waith y cyfeirir ati yn Atodiad 1 yr adroddiad.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau o gynrychiolwyr y pwyllgor.

Cyn cau'r cyfarfod cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r aelodau am eu gwasanaeth ar y pwyllgor a dymunodd y gorau iddynt am y dyfodol. Nododd y

Cynghorydd Rhys Hughes ei fod wedi mwynhau'i amser ar y pwyllgor a diolchodd i'r Cadeirydd am ei gyfraniad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am.

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	14 Mehefin 2012
Aelod/Swyddog Arwain:	Aelod Arwain dros Addysg/ Pennaeth Cynhwysiant a Gwella Ysgolion
Awdur yr Adroddiad:	Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd
Teitl:	Arolygiad Estyn o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adolygu arolygiad Estyn ym mis Chwefror 2012 o Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Conwy a Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ystyried canfyddiadau Arolygiad Estyn o Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Conwy a Sir Ddinbych.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Adolygu casgliadau arolygiad Estyn a rhoi sylwadau am yr argymhellion cysylltiedig.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Roedd y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych, o'r enw Cyswllt Dysgu, yn destun Arolygiad Estyn yn ystod wythnos gyntaf mis Chwefror 2012. Mae'r prif bartneriaid yn cynnwys ALLau Conwy a Sir Ddinbych, Coleg Llandrillo Cymru, Coleg Harlech/WEA(N) a Choleg Glannau Dyfrdwy (Coleg Llysfasi).

4.2 Yn ystod yr arolygiad, drwy ddadansoddi'r hunanarfarniad, y data perfformiad, yr arsylwadau gwersi a'r cyfarfodydd â rhanddeiliaid, roedd Estyn yn ceisio ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r canlyniadau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arwain a'r rheoli?

Barnodd Estyn fod pob un o'r tri Chwestiwn Allweddol yn Dda.

Bu'r arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol am berfformiad cyfredol y bartneriaeth; ystyriwyd bod y perfformiad yn Dda a'r rhagolygon ar gyfer gwelliant yn Rhagorol. Ar hyn o bryd, hwn yw'r proffil gradd gorau yng Nghymru ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned.

- 4.3 Mae perfformiad cyfredol y bartneriaeth yn dda oherwydd:
- mae'r dysgwyr yn cyflawni safonau da yn yr ystafell ddosbarth; mae eu cyfraddau llwyddo'n cymharu'n dda â'r cymaryddion cenedlaethol;
 - mae ansawdd yr addysgu a'r asesu yn dda neu'n well ym mron pob achos;
 - mae'r darparwyr yn cydweithio'n dda i gynllunio'r cwricwlwm ac i gysoni'r ddarpariaeth â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol; ac
 - mae ansawdd yr arwain a'r rheoli yn dda. Mae lefel dda o gynllunio strategol a threfniadau da ar waith i sicrhau ansawdd a chynllunio at welliant.
- 4.4 Mae rhagolygon y bartneriaeth ar gyfer gwelliant yn rhagorol oherwydd:
- mae tuedd o wella yn y cyfraddau llwyddo i ddysgwyr;
 - mae lefel uchel yr ymddiriedaeth rhwng partneriaid ac ymrwymiad i weledigaeth gyffredin wedi arwain at welliant da yn y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr ac yn ansawdd yr addysgu a'r asesu ers yr arolygiadau diwethaf;
 - mae ansawdd rhagorol y gwaith partneriaeth yn sicrhau safon dda o gynllunio'r ddarpariaeth ac ansawdd yr adnoddau sydd ar gael i'r dysgwyr; ac
 - mae'r systemau sicrhau ansawdd da ac ansawdd y cynlluniau at welliant wedi gwella safonau i'r dysgwyr.
- 4.5 Roedd adroddiad arolygiad Estyn yn amlygu bod gwahanol ddysgwyr o wahanol gefndiroedd a lefelau gallu yn cyflawni safonau da yn eu gwaith. Mae llawer o ddysgwyr ag anghenion sgiliau sylfaenol yn llwyddo i wella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae dysgwyr o bob oedran yn perfformio'r un mor dda. Mae'r dysgwyr hŷn yn gwneud cynnydd da mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn cyflawni safonau da yn eu gwaith.
- 4.6 Nid oes digon o'r dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn ddigon da yn gyfrwng dysgu neu ar gyfer asesu eu cynnydd.
- 4.7 Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwella eu hyder drwy gymryd rhan mewn dysgu. Ystyria ambell ddysgwr fod dysgu wedi trawsnewid ei fywyd. O ganlyniad, maent yn gallu rheoli eu bywydau a chefnogi eu plant yn well.
- 4.9 Mae'r addysgu'n dda neu'n well yn y rhan fwyaf o'r sesiynau a arsylwyd gan y tîm arolygu. Yn y sesiynau hyn, mae'r tiwtoriaid yn cynllunio'n dda, yn rhoi lefelau da o gymorth llythrennedd i'r dysgwyr ac yn helpu'r dysgwyr i wneud cynnydd da.

5. Arweinyddiaeth a phartneriaethau

- 5.1 Mae arweinwyr y bartneriaeth yn darparu arweinyddiaeth dda. Maent yn cyfathrebu eu gweledigaeth a'u nodau strategol yn effeithiol â sefydliadau partner ac aelodau drwy gynllun strategol Cyswllt Dysgu. Mae eglurder y cynllun yn sicrhau bod pob sefydliad partner yn deall yr hyn y mae angen iddo ei gyflawni. Mae gan y partneriaid hanes hir a llwyddiannus o gydweithio i gyrraedd eu nodau.
- 5.2 Mae'r arweinwyr yn cydweithio'n dda ag ystod eang o grwpiau allweddol eraill, fel Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy a Sir Ddinbych, a chyda grwpiau adfywio lleol fel strategaeth Dinas y Rhyl. Mae'r bartneriaeth wedi gwneud penderfyniad cadarn i ddefnyddio dysgu oedolion i wella sgiliau cyflogaeth dysgwyr lleol.
- 5.3 Mae gan y bartneriaeth drefniadau da ar gyfer hunanasesu, gydag amcanion ac amserlenni clir. O ganlyniad, gall y bartneriaeth dynnu ynghyd ac arfarnu'r gwaith a wnaethpwyd gan bob partner. Mae'r broses hunanasesu'n effeithiol o ran cynnwys barn dysgwyr, staff a phob partner a sefydliad sy'n ymwneud â dysgu oedolion yn y gymuned.
- 5.4 Ystyria Estyn fod y gwaith partneriaeth yn rhagorol, mae wedi cydweithio'n dda iawn dros nifer o flynyddoedd ac wedi datblygu lefelau uchel o ymddiriedaeth. Mae cydweithio gwych y bartneriaeth yn gwella'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr ac ansawdd yr addysgu a'r asesu.

6. Argymhellion Estyn

6.1 Er mwyn gwella, mae angen i'r bartneriaeth:

- A1 cynyddu nifer y dosbarthiadau a'r gweithgareddau dysgu lle mae dysgwyr yn cyflawni safonau rhagorol yn eu gwaith;
- A2 cynyddu'r addysgu a'r asesu rhagorol;
- A3 hyrwyddo dull cyffredin o ddiogelu i godi safon polisïau a gweithdrefnau holl aelodau'r bartneriaeth; a
- A4 hyrwyddo a gwella'r modd y defnyddir y Gymraeg yn gyfrwng cyfathrebu er mwyn dysgu.

7. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

7.1 Mae'n cefnogi agweddau allweddol ar y Cynllun Mawr, cynlluniau busnes gwasanaeth ac mae'n cyfrannu at Foderneiddio Addysg fel blaenoriaeth gorfforaethol.

8. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

8.1 Ni nodwyd unrhyw gostau penodol ar gyfer y cynllun gweithredu arolygiad nac ôl-arolygiad. Cefnogir yr holl weithgarwch gan grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned Llywodraeth Cymru a chyllid coleg.

9. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

9.1 Ymgynghorwyd â'r partneriaid sy'n cefnogi addysg i oedolion yn y gymuned yn yr awdurdod a sefydliadau cefnogol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Bach iawn yw'r risg gwleidyddol a'r risg i enw da'r awdurdod gan fod canlyniadau'r arolygiad yn dda ac yn rhagorol. Lleihawyd y risg am fod pob partner wedi buddsoddi adnoddau sylweddol mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned, yn arbennig y colegau AB.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Nid oes gofynion cyfreithiol ond mae arolygiadau awdurdod lleol yn orfodol.

Swyddog Cyswllt:

Swyddog Perfformiad Effeithiolrwydd Ysgolion: Uwchradd

Ffôn: 01824 708026

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	14 Mehefin 2012
Swyddog/Aelod Arwain:	Y Cyd-bennaeth Priffyrdd a Seilwaith
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Adran: Cludiant Teithwyr
Teitl:	Gwasanaethau Bws a Gostyngiadau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'n rhoi gwybod i'r aelodau am y ffordd y caiff gwasanaethau bws eu trefnu, am newidiadau yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn ariannu gwasanaethau bws a gwasanaethau perthnasol, am y canlyniadau i'r Cyngor Sir, ac am gamau lliniaru arfaethedig, ac mae'n eu cynghori i ddechrau proses ymgynghori.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybodaeth a cheisio sylwadau am newidiadau yn y ffordd y caiff gwasanaethau bws eu hariannu, a fydd yn effeithio'n amlwg ar brisiau tocynnau a lefelau gwasanaeth a ddarperir.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod:

- 3.1 yr adroddiad yn cael ei nodi;
- 3.2 swyddogion yn ymgynghori â'r gymuned ehangach ynghylch toriadau posibl i wasanaethau bws; ac
- 3.3 ar ôl yr ymgynghoriad, bod y Cyd-bennaeth Priffyrdd a Seilwaith yn llunio adroddiad pellach, i'r Cabinet, yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn cynnig mesurau penodol, yn unol â'r amserlen a fynnir gan Lywodraeth Cymru a'r gyllideb sydd ar gael.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1 Mae gwasanaethau bws yn Sir Ddinbych ar eu gorau erioed, a hynny'n bendant ers y blynyddoedd darbodus iawn ar ddechrau'r 1970au. Daw hyn ar ôl cynyddu niferoedd y rhai sy'n teithio'n rhad ac am ddim o dan drefniadau Cerdyn Cymru i bobl dros 60 (a'r rheini ag anabledau penodol). Mae'n adlewyrchu'r cyllid ychwanegol gan y Cyngor Sir a LIC sydd wedi helpu i ariannu cerbydau hygyrch mwy newydd ac sydd wedi gwella amllder y gwasanaethau.

4.2 Mae gwasanaethau bws yng Nghymru (fel mewn mannau eraill heblaw Llundain a Gogledd Iwerddon) yn perthyn i dri chategori:

- Gwasanaethau masnachol. Ariennir y rhain yn bennaf gan deithwyr sy'n talu am docynnau neu gan ad-dalu teithio am ddim yn lle tocynnau teithio (i'r rheini dros 60 neu'r rheini ag anabledau penodol). Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn ystod y dydd sydd ar waith yng ngogledd Sir Ddinbych yn rhai masnachol, ynghyd â'r X94 a gwasanaeth 5 (sy'n gwasanaethu Corwen a Llangollen) yn y de. Nid oes gan y Cyngor Sir unrhyw reolaeth uniongyrchol ar y math hwn o wasanaeth.
- Gwasanaethau contract. Gwasanaethau yw'r rhain sy'n gymdeithasol angenrheidiol ac sy'n cael eu cymorthdalw gan y Cyngor Sir os nad yw gweithredwr yn barod i weithredu'n fasnachol. Mae llawer o'r rhwydwaith i dde'r sir o dan contract.
- Gwasanaethau eraill. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn wasanaethau hybrid sy'n gweithredu'n fasnachol o dan ryw fath o gytundeb, gyda chyllid ychwanegol oddi wrth y Cyngor Sir. Un enghraifft yw gwasanaeth bws X50 o Ddinbych a Rhuthun i Wrecsam.

4.3 Crynhoir statws pob gwasanaeth bws yn Sir Ddinbych yn Atodiad 1.

4.4 Mae'r rhwydwaith bws wedi esblygu fesul dipyn dros nifer o flynyddoedd, a hynny'n arbennig ers dadreoleiddio gwasanaethau bws ym 1986. Mae hyn yn dilyn newidiadau gweithredwyr masnachol ac ymatebion y Cyngor Sir iddyn nhw ac, mewn rhai achosion, cyfleoedd cyllido a ddaeth i'r amlwg.

4.5 Mae lefel y gwasanaeth a ddarperir mewn unrhyw ardal benodol yn dibynnu ar nifer o ffactorau fel maint ei phoblogaeth a'i chyfansoddiad demograffig; a pha mor agos ydyw at gyfleusterau siopa, gwaith, addysg a hamdden. Bydd lefel y gwasanaeth yn gwahaniaethu ar adegau amrywiol o'r dydd a diwrnodau'r wythnos. Wrth reswm, gall ardaloedd trefol gefnogi lefelau uwch o wasanaeth bws, yn arbennig yn ystod y dydd, a gallan nhw fel arfer gynnal lefel fasnachol o wasanaeth. Mae'r gyfran o filltired masnachol yn Sir Ddinbych tua 85 y cant.

4.6 Bu Sir Ddinbych yn ffodus o fwynhau marchnad bysiau leol gynyddol a chymharol sefydlog. Bu gweithredwyr masnachol, yn enwedig yn y gogledd, yn gallu cynnal gwasanaethau, a'u tyfu hyd yn oed, yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o goridorau rhyng-drefol mewn mannau eraill wedi cael gwelliannau, naill ai'n fasnachol neu ar ôl cael cyllid mewmol neu allanol.

4.7 Lle mae gweithredwyr masnachol wedi cynnig newidiadau a allai effeithio'n negyddol ar deithwyr, ar ôl asesiad, bu swyddogion y Cyngor Sir yn gyffredinol yn gallu llenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth. Mae'r penderfynyddion allweddol yn cynnwys ystyried a ydy'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwaith neu addysg; natur wledig (lle

nad oes dewis arall heblaw'r bws yn aml); amser o'r dydd; diwrnod yr wythnos; a chost debygol y ddarpariaeth.

- 4.8 Mae LIC yn newid y ffordd y mae'n helpu i gefnogi gwasanaethau bws yn y dyfodol. Caiff gweithredwyr bws refeniw o nifer o ffynonellau, a chyhoeddiadau diweddar LIC yn effeithio arnynt oll neu'n mynd i effeithio arnynt oll. Gwnaethpwyd y rhain yn wreiddiol naill ai ym mis Ionawr neu fis Chwefror 2012, yn rhy hwyr i'w hystyried o dan bwysau cyllideb y Cyngor. Ar gyfer y Cyngor Sir, mae hyn yn cynnwys gostwng y Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol (LTSG) o £396,000 i £288,000, dros flwyddyn gyfan.
- 4.9 Wedyn, mae LIC wedi cynnig lleiafswm o dri mis o arian pontio, a fydd efallai'n estyn i chwe mis neu hyd yn oed naw. Mae ei estyn yn dibynnu ar adolygiad gweinidogol strategol, cenedlaethol o gyllid a allai achosi newid sylweddol. Adeg ysgrifennu, mae'r Gweinidog wedi sefydlu grŵp adolygu ac mae Sir Ddinbych yn cael ei chynrychioli drwy Taith, y consortiwm trafndiaeth ranbarthol. Mae'n rhy gynnar rhagweld y canlyniad ond gallai olygu bod consortia yn hytrach na gweithredwyr yn cael y Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (BSOG). Gallai hyn roi mwy o reolaeth i'r consortia, ac felly i bob cyngor sir, ar wasanaethau bws masnachol. Mae'r Gweinidog yn glir iawn ei fod yn dymuno ymdrin yn fwy yn y dyfodol â'r pedwar consortia na'r cynghorau sir unigol.
- 4.10 Er gwaethaf y newidiadau posibl hyn yng nghyllid y dyfodol, mae angen i'r Cyngor Sir gynllunio at ostyngiad sydd ar ddigwydd yng nghyllid LIC ar gyfer bysiau. Mae angen iddo fod mewn sefyllfa i ymateb yn gyflym.
- 4.11 Yn Atodiad 2, ceir manylion y ffordd y mae gwasanaethau bws yn cael eu hariannu ac effaith newidiadau LIC. Mae Atodiad 3 yn awgrymu ymhle y gellid gwneud newidiadau yn y dyfodol. Bydd angen i hyn ystyried gwasgfa ar wasanaethau ar gyfer newidiadau yn y gwasanaethau bysiau a'r gorwariant bach yn 2011/12. Mae'r arbedion gofynnol tua £145,000 dros flwyddyn gyfan o'u cymharu â chyllideb 2011/12 o £911,000. Bydd y rhan fwyaf o'r newidiadau arfaethedig yn annymunol ac, am y rhesymau a nodir yn Atodiad 3, argymhellir bod y Cyngor yn ymgynghori. Caiff rhanddeiliaid gyflwyno dewisiadau eraill os teimlant eu bod yn fwy dymunol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae torri gwasanaethau cludiant teithwyr yn effeithio'n negyddol ar flaenoriaethau corfforaethol, yn enwedig ar gyfer

- (a) pobl hŷn ac ieuengach (sy'n dibynnu fwyaf ar gludiant cyhoeddus) a
- (b) o ran yr amgylchedd (bydd prisiau uwch a llai o wasanaethau yn annog pobl i beidio â defnyddio bysiau ac yn cynyddu siwrneiau car).

Hefyd, maent yn effeithio ar Flaenoriaethau Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru sef cynaliadwyedd, cefnogi twf economaidd a chynhwysiant cymdeithasol. Mae'n effeithio hefyd ar bobl anabl.

6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Hyd at £146,000 mewn blwyddyn gyfan a hyd at £60,000 pellach posibl. Hefyd, hwyrach na fydd swyddogion yn gwybod lefel yr ymateb o ran gweithrediadau masnachol (oherwydd gostyngiadau yn y Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (BSOG) a'r Teithio Consesiynol am Ddim (FCT)) am ychydig. Pe byddai rhagor o wasanaethau masnachol yn cael eu tynnu'n ôl, mae'n debygol y byddan nhw'n cludo mwy o deithwyr na'r gwasanaethau a gynhelir ar hyn o bryd, am eu bod yn fasnachol am gyfnod hir.
- 6.2 Dangosir yr effeithiau yn Atodiad 2.
- 6.3 Os tynnir gwasanaethau masnachol yn ôl, hwyrach y bydd angen i'r Cyngor ystyried blaenoriaethu darparu'r rhain mewn perthynas â gwasanaethau presennol a gynhelir.
- 6.4 Bydd y toriadau'n effeithio ar yr amgylchedd (gweler 5 (b) uchod).

7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

- 7.1 Papur cychwynnol yw hwn sy'n ystyried yr angen i ymgynghori yn y dyfodol.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd y gostyngiadau yng nghyllid LIC yn creu gwasgfa costau yn y gwasanaeth. Yn yr hinsawdd sydd ohoni, disgwylir i wasanaethau geisio cadw'r wasgfa yn yr adnoddau presennol. Dylid hefyd amlygu effaith lawn hyn mewn termau ariannol a darparu gwasanaeth yn ystod y broses herio gwasanaeth sydd ar ddod ac yn ystod y cylch cyllidebu yn yr hydref.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Gwleidyddol — toriadau'n cael eu cynnig yn ystod cyfnod etholiad Ariannol — wrth beidio â chyflwyno'r toriadau ar unwaith.
Enw da - sef methu â bodloni ceisiadau gweithredwyr contract am gyllid ychwanegol i liniaru gostyngiadau yn y Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (BSOG) ac i ysgwyddo Cysylltiadau Cyhoeddus negyddol.

Amgylcheddol — posibilrwydd mwy o siwrneiau car.

Corfforaethol - gostyngiadau yn ystod adeg pan mae strategaethau corfforaethol i gynorthwyo demograffig sy'n heneiddio (ar gyfartaledd,

mae o leiaf 40% o ddefnyddwyr bysiau yn 60 neu'n hŷn) neu bobl ieuengach (carfan bwysig arall o ddefnyddwyr bysiau).

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Adran: Cludiant Teithwyr

Ffôn: 01824 706847

Atodiad 1—Gwasanaethau Bysiau Sir Ddinbych (statws gwasanaeth)

Tudalen 18

Gwasanaeth	O/i	Amser Brig	Adegau tawel yn ystod yr wythnos	Gyda'r Nos	Dydd Sul
1, 1A 2	Rhuthun – yr Wyddgrug	Contract	Contract		
X1	Rhuthun – yr Wyddgrug - Caer		Contract		
5	Corwen – Llangollen – Wrecsam	Masnachol	Masnachol	Contract	Masnachol
5A	Y Waun – Llangollen – Wrecsam				Masnachol
X5	Corwen - Rhuthun – Dinbych	Contract	Contract		
6	Tref Dinbych/Llanefydd		Contract		
11	Y Rhyl – Prestatyn – Caer			Contract	
12	Y Rhyl – Llandudno	Masnachol	Masnachol	Masnachol	Masnachol
13	Prestatyn – Glan Clwyd – Llandudno	Masnachol	Masnachol	Masnachol	Masnachol
14	Dinbych – yr Wyddgrug	Contract	Contract		
18/19	Y Rhyl – Prestatyn – Treffynnon	Contract	Contract		
35/36	Y Rhyl – Prestatyn – Dyserth – y Rhyl	Masnachol	Masnachol	Contract	Contract
38	Tref Prestatyn		Masnachol		
45/46	Y Rhyl – Bae Cinnel – Towyn – Bodelwyddan – Glan Clwyd	Contract	Contract		
47	Tref y Rhyl		Contract		
X50	Dinbych – Rhuthun – Wrecsam	Contract	Cytundeb	Contract	Contract
51	Dinbych – y Rhyl	Masnachol	Masnachol	Masnachol	Masnachol
X52	Dinbych – y Rhyl	Masnachol	Masnachol	Contract	Contract
54	Y Rhyl – Parc Busnes Llanelwy	Contract			
62	Dinbych - Nantglyn – Llansannan		Contract		
64	Llangollen – y Waun – Dyffryn Ceiriog		Contract		
70	Pentrefi i'r de o Ruthun i Ruthun		Contract		

73	Tref Rhuthun		Contract		
76	Dinbych - Llandyrnog - Rhuthun - Graigfechan		Contract		
77	Rhuthun - Llanelidan		Contract		
83/84	Tref y Rhyl	Cytundeb	Cytundeb	Cytundeb	
91	Melin y Wig - Corwen - Llangollen		Contract		
X94	Abermo - Corwen - Llangollen - Wrecsam	Cytundeb	Cytundeb	Contract	Contract
95	Melin y Wig - Corwen - Bryneglwys - Wrecsam		Contract		

Atodiadau 2—Newidiadau mewn cyllid, goblygiadau ac ymgynghori

Mae'r newidiadau'n effeithio ar y meysydd canlynol:

Cymhorthdal uniongyrchol gan awdurdodau lleol

1. Mae'r Cyngor Sir yn rhoi cymorth ariannol i lu o wasanaethau bysiau rhyng-drefol a gwledig yn bennaf na fyddent yn gweithredu fel arall heb gymhorthdal. Daw'r cyllid o gyllidebau mewnol ac o Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol (LTSG) Llywodraeth Cymru. Yn genedlaethol yn 2012/13, mae LIC yn lleihau LTSG o £11m i £8m. Bydd pob awdurdod yn cael 27 y cant yn llai. Ar gyfer Sir Ddinbych, mae hyn gywerth â £108,000 dros flwyddyn gyfan (o £396,000 i £288,000). Gyda'r trefniadau pontio, bydd hyn yn arwain at dorri rhwng £54,000 a £81,000 yn y flwyddyn gyntaf.
2. Sefyllfa'r gyllideb Priffyrdd a Seilwaith yw bod y gyllideb o £515,000 yn parhau heb ei newid.

Y Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bws (BSOG)

3. I bob pwrpas, ad-daliad o doll tanwydd yw hwn. Mae'r hawl gan weithredwyr gwasanaethau masnachol a chontract i hawlio'n ôl tua 47c y litr o'r doll tanwydd a dalant. O 1 Medi 2012 yn hytrach na mis Ebrill fel y bwriadwyd yn wreiddiol, mae LIC yn cwtogi 25 y cant ar hyn i 35c. Mae hyn yn ei gysoni â newid tebyg yn Lloegr. Y gwahaniaeth yw bod gweithredwyr yn Lloegr wedi elwa ar 18 mis o rybudd, felly gallent gynllunio'n well ar gyfer newid o'r fath.
4. Er bod y gostyngiad wedi'i oedi, nid oedd dim amser gan y gweithredwyr i wrthdroi'r cynnydd a gynlluniwyd ym mhrisiau tocynnau bws. Canfuwyd eisoes fod y rhain yn uchel ond nid oes llawer o ddewis gan y gweithredwyr. Cododd GHA brisiau tocynnau ryw 20 y cant. Mae Arriva wedi cynyddu pris tocynnau i oedolion ac wedi newid y consesiwn plentyn o hanner pris i draean i ffwrdd. Mae wedi tynnu'n ôl y prisiau tocyn dychwelyd. Bydd cynnydd fel hyn yn golygu bod llai o bobl yn teithio ar y bws. Bydd hyn yn effeithio ar hyfywdra rhai gwasanaethau masnachol a gallai arwain at ofyn bod y Cyngor yn ystyried tynnu rhagor yn ôl. Yn lleol, hyd yma, mae Arriva wedi lleihau amllder ei wasanaeth o Ddinbych i'r Rhyl yn ystod y dydd i bob 20 munud. Ni all GHA nac Arriva ddiystyru newidiadau pellach. Mae'r sefyllfa yn Sir Ddinbych efallai'n llai ansicr nag yn yr ardaloedd i'r gorllewin, oherwydd perfformiad uchel cyffredinol garej Arriva yn y Rhyl.
5. Ar gyfer y gwasanaethau masnachol yn yr ardal, amcangyfrifir y bydd effaith newidiadau LIC tua £180,000 y flwyddyn (dros flwyddyn gyfan), a rhywfaint ohono'n cael ei adennill mewn prisiau tocynnau uwch. Yn anochel, bydd oedi cyn rhoi gwybod am newidiadau masnachol neu

wasanaethau a dynnwyd yn ôl, wrth i weithredwyr barhau i asesu goblygiadau'r gostyngiad yn y grant BSOG.

6. O ran gwasanaethau contract sy'n derbyn cymorth y mae'r Cyngor yn cyfrannu atyn nhw, mae un gweithredwr hyd yma wedi gofyn am gynnydd i helpu i liniaru colled y grant BSOG a phwysau chwyddiannol eraill. Pe bydden nhw i gyd yn gofyn i'r Cyngor am y diffyg cyfan, gallai hwn fod tua £60,000 dros flwyddyn gyfan.
7. Fel y nodwyd ym mharagraff 4.9 o'r prif adroddiad, mae grant BSOG yn y dyfodol yn cael ei ystyried gan y gweinidog.

Ad-dalu teithio consesiynol am ddim (FCT)

8. Nid cymhorthdal yw hwn fel y cyfryw, ond taliad anuniongyrchol i weithredwyr i'w had-dalu am gludo pobl hŷn a phobl anabl benodol yn rhad ac am ddim.
9. Mae gweithredwyr yn cael eu talu am bob siwrnai am ddim a wneir. Mae LIC yn cymhwyso ffactor lliniaru am bob siwrnai. Mae hyn yn gostwng y cais am ei fod yn tybio y bydd mwy o bobl yn teithio, gan fod y cynllun am ddim, nag y byddent petaent wedi talu am docyn. Roedd hwn 73.59 y cant. Yn wreiddiol, gostyngodd LIC y ffactor addasu i 70 y cant ond, o fis Ebrill 2012, mae wedi dychwelyd wedyn i'r ffigur blaenorol. Gan ddibynnu ar gyllidebau, hwyrach y bydd LIC yn penderfynu newid y ffactor lliniaru yn y dyfodol ond yn dal yn disgwyl i weithredwyr gludo'r un nifer o deithwyr ag o'r blaen ond, am y tro, mae'r maes hwn yn peri llai o ofid. Petai hyn yn newid, bydd hwn yn arwain yn anochel at deithwyr sy'n talu prisiau "arferol" yn ysgwyddo baich tocynnau ychwanegol.

Menter Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol (CTCFI)

10. Mae hyn yn effeithio ar wasanaeth Galw'r Gyrrwr Sir Ddinbych (Dial-a-Ride), sef cymdeithas sy'n darparu gwasanaethau drws-i-ddrws i bobl yng ngogledd Sir Ddinbych nad allant ddefnyddio gwasanaethau bws. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae'r gwasanaeth wedi elwa ar fod ymhlith gwasanaethau peilot honedig y fenter a alluogodd aelodau Galw'r Gyrrwr i deithio am ddim ar yr un sail ag y byddent petaent wedi gallu defnyddio bws. Cynlluniwyd y cynlluniau peilot hyn i arddangos a allai neu a ddylai CTCFI gael ei gymhwyso mewn mannau eraill. Bu'r cynllun dan fygythiad bob blwyddyn. Yn 2012/13, ni fydd LIC yn cefnogi'r cynlluniau peilot rhagor ond, eto, mae elfen o arian pontio, am dri mis. Mae hyn yn golygu y bydd Galw'r Gyrrwr heb gyllid o ryw £86,000 y flwyddyn (dros flwyddyn gyfan).
11. Yn wahanol i'r grantiau neu'r ad-daliadau eraill uchod, cafodd Galw'r Gyrrwr rybudd mwy rhesymol am yr achos hwn o dynnu arian yn ôl ond, serch hynny, mae'n peryglu'r gymdeithas elusennol hon i ryw raddau. Bu swyddogion yn gweithio gyda Galw'r Gyrrwr i geisio eu

gwneud yn fwy cadarn gan annog Galw'r Gyrrwr i roi dyfynbrisiau am waith o fath contract, heb lawer iawn o lwyddiant. Hefyd, bydd y gostyngiad yn y grant BSOG yn effeithio ar wasanaeth Galw'r Gyrrwr. Y canlyniad i'r cwmni yw naill ai gwasanaeth gostyngedig neu gynyddu cymhorthdal y Cyngor (ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cyfrannu tua £27,000 y flwyddyn, gan gynnwys ar gyfer Night Rider, cynllun cludiant gyda'r nos i bobl hŷn yng ngogledd y sir).

Ar refeniw bws (tocynnau arian)

12. Mae'r gweithredwyr eisoes wedi cynyddu'r prisiau tocyn, o ganlyniad i rywfaint o'r uchod.

Effaith Gronnus

13. Bydd effaith gronnus y newidiadau hyn yn effeithio'n sylweddol ar ddarpariaeth y gwasanaethau bws lleol, ac yn ei gwanhau ymhellach. Hefyd, mae costau yswiriant, llafur a thanwydd yn dal yn codi, a disgwylir i danwydd diesel fod yn broblem sylweddol yn 2012, gyda gweithredwyr yn disgwyl cynnydd o 11 y cant o leiaf.
14. Gellir crynhoi fel a ganlyn effaith ariannol blwyddyn gyfan penderfyniadau LIC ar weithredwyr, a'r cyfan wedi'i ddangos ar sail blwyddyn gyfan:

Grant/ad-daliad	Effeithio ar	Effaith	Amcangyfrif/Gwirioneddol
Grant LTSG yn Sir Ddinbych	Gweithredwyr bws, Galw'r Gyrrwr	£108,000	Gwirioneddol
Grant BSOG	Gweithredwyr masnachol a Galw'r Gyrrwr	£180,000	Amcangyfrifon
	Gweithredwyr contract	£60,000	
Teithio Consesiynol am Ddim (FCT)	Gweithredwyr bws	£0	Amcangyfrif
Menter CTCFI	Galw'r Gyrrwr	£86,000	Gwirioneddol
CYFANSWM GWAETHAF POSIBL		<u>£434,000</u>	

15. Heblaw fel y soniwyd uchod, nid yw'r effaith lawn ar wasanaethau masnachol yn gwbl hysbys eto, oherwydd bydd hyn yn llusgo. Golyga'r effaith ar wasanaethau a gynhelir ostyngiad ar unwaith yn y gyllideb. Yn 2011/12, roedd y cymhorthdal cludiant cyffredinol yn cynnwys:

Priffyrdd a Seilwaith	£515,400
Grant LTSG	<u>£396,000</u>
Cyfanswm	£911,400

Mae grant LTSG hefyd yn helpu i ariannu gwasanaethau bysiau a chludiant cymunedol yn ogystal ag elfen o grant LTSG tuag at staff,

cyhoeddusrwydd a seilwaith bysiau. Gan dybio y bydd cyllideb y Cyngor yn sefyll yn stond, mae'r newid ar gyfer 2012/13 fel a ganlyn:

Priffyrdd a Seilwaith	£515,000
Grant LTSG	<u>£288,000</u>
Cyfanswm	£803,000

Mae'r 27 y cant o doriad cyllid yn y grant LTSG yn gywerth â gostyngiad cyffredinol o 12 y cant, dros flwyddyn gyfan. Mae'r arian pontio yn 2012/13 yn lleihau'r effaith yn y flwyddyn gyntaf.

16. Sylwch fod rhyw £168,000 o'r gyllideb gyfredol wedi'i gwarchod yn effeithiol gan fod y gwasanaethau'n cludo gweithwyr a/neu fyfyrwyr, neu'n ffurfio rhan o gytundeb ehangach â gweithredwr dros brynu bysiau newydd (e.e. £20,000 y flwyddyn dros bum mlynedd i Wasanaethau Tref y Rhyl).
17. Mae angen felly lleihau'r gwariant ar gludiant lleol yn unol â'r gyllideb ddiwygiedig, a hynny £108,000 o leiaf. Hwyrach hefyd y bydd angen cwtogi hyd at £60,000 pellach ar hyn os bydd gofyn cyllid ychwanegol ar gontractwyr oherwydd gostyngiad yn y grant BSOG.
18. Ar ddiwedd 2011/12, roedd gorwariant bach ar gefnogi gwasanaethau bysiau, sef £12,000, a bydd angen ei leihau.
19. Mae pwysau cyllidebol blaenorol wedi tueddu i gael eu cadw yn y gyllideb. Hefyd, mae dau o bwysau newydd heb eu hateb, a'r cyntaf ohonynt yn sylweddol.
20. Cafwyd gwybod am y prif bwysau yn rhy hwyr ar gyfer proses gosod y gyllideb, ar ôl adleoli gwasanaethau clinig llygaid ym mis Mai o'r hen H M Stanley i Ysbyty Abergele. Roedd y safle yn H M Stanley mewn safle perffaith i'r gwasanaethau bws rheolaidd rhwng Rhuthun, Dinbych, Llanelwy, Rhuddlan a'r Rhyl. Mae'r lleoliad newydd, a hyd at 10 bws y dydd i Abergele yn unig, yn llawer llai cyfleus i gludiant cyhoeddus. Er bod y gyllideb mewn sefyllfa arswydus, mae galw o hyd am wasanaeth, ac mae'r symlaf o hyn drwy gludiant cymunedol sy'n ymateb i alw a allai fod yn anhyblyg o hyd ond bydd yn costio £20,000 o'i gymharu â gwasanaeth bysiau adegau tawel o £55-£61,000. Er mwyn darparu'r cyswllt ychwanegol hwn, byddai angen cael gostyngiad cymesur mewn gwasanaethau bws.
21. Mae galw gan breswylwyr Tremeirchion sy'n mwynhau gwasanaeth bws chwe diwrnod yr wythnos i'r Rhyl am gael gwasanaeth cyfyngedig i Ddinbych. Gellir darparu hwn, mewn egwyddor, drwy dynnu gwasanaeth y Rhyl yn ôl ar ddiwrnod neu ddau, er bydd hyn yn cynyddu costau'r gweithredwr ychydig, oherwydd bydd angen i'r bws fod yn y Rhyl am waith dilynol. Bydd hyn yn cynyddu'r costau ychydig tua £6,000, a bydd gofyn lleihau hyn wedyn.

Toriadau Posibl

22. Dyma'r sefyllfa gronnus ynghylch cyllidebau dros flwyddyn gyfan (yn 2013/14 a blynyddoedd dilynol):

Cyllideb y Cyngor	£515,000	
Grant LTSG	<u>£396,000</u>	£911,000
Gwariant disgwylidig	£923,000	
<u>Llai</u> Gostyngiad mewn cyllid LIC	£108,000	
<u>Llai</u> Pwysau – chwyddiant	£24,000	
<u>Llai</u> Pwysau – gwasanaethau ychwanegol	<u>£26,000</u>	<u>£765,000</u>
Diffyg (blwyddyn gyfan)		<u>£146,000</u>

Mae hwnnw ar gyfer 2012/13, gydag arian pontio, yn debygol o fod:

Cyllideb y Cyngor	£515,000	
Grant LTSG	<u>£396,000</u>	£911,000
Gwariant disgwylidig	£923,000	
<u>Llai</u> Gostyngiad mewn cyllid LIC	£54,000	
<u>Llai</u> Pwysau – chwyddiant	£12,000	
<u>Llai</u> Pwysau – gwasanaethau ychwanegol	<u>£13,000</u>	<u>£844,000</u>
Diffyg (rhan o flwyddyn)		<u>£67,000</u>

Hyd yma, nid yw'n glir faint o amser a ddisgwylir ar gyfer arian pontio. Mae'r ffigurau uchod yn tybio chwe mis.

23. Er mwyn ystyried pwysau a chwyddiant, mae angen felly i'r Cyngor gynllunio am ostyngiad lleiaf yn y cyllid o £182,000 dros flwyddyn gyfan, sef y swm a wariwyd yn 2011/12 llai'r swm sydd ar gael yn 2013/14. Hefyd, byddai'n ddoeth ystyried cronfa wrth gefn o £60,000 pellach dros flwyddyn gyfan, pe byddai hyn yn ofynnol ym mharagraff 17.

24. Caiff yr holl wasanaethau bws a chludiant arall i deithwyr a gynhelir gan y Cyngor eu trefnu yn ôl eu cost i'r Cyngor am bob teithiwr, yn Atodiad 3. Dangosir y rheini yr ystyrir eu bod yn fwyaf addas i'w torri neu eu cadw wrth gefn.

25. Hon yw'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i geisio adnabod toriadau:

- A ellir gwneud y toriad yn hawdd, heb fawr iawn o effaith
- Y gost i'r cyngor, fesul teithiwr a gludir
- A oes dull arall rhatach
- A ydy'r gwasanaethau o natur wledig, rhyng-drefol neu drefol
- A ydynt yn cludo myfyrwyr a/neu weithwyr

- A ydynt yn rhan o gytundeb heblaw contract y mae'r Contract yn parhau'n rhwym iddo
- A ddylai gwasanaethau cludiant cymunedol gael eu gwarchod o leiaf ar lefelau cyllidebol cyfredol
- Cost referniw gyffredinol gwasanaeth

26. Mae amseru'n bwysig. Er mwyn gwneud newid, mae'n rhaid i weithredwr roi o leiaf 56 diwrnod o rybudd i'r Comisiynydd Traffig. Dylai'r Cyngor roi 28 diwrnod ychwanegol o rybudd i'r contractwr. Hiraf y bydd y Cyngor yn gadael ei benderfyniad, dyfnaf y bydd y toriadau yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Pe byddai LIC yn ariannu trefniant pontio ar gyfer y chwe mis cyntaf hyd ddiwedd mis Mehefin, byddai angen i'r Cyngor wneud £67,000 o doriadau uniongyrchol (gan gynnwys pwysau). Pe byddai'n cael ei oedi hyd fis Ionawr, er enghraifft, byddai toriad effeithiol y flwyddyn gyntaf yn gywerth â £100,000.

27. Bydd unrhyw awydd ymgynghori hefyd yn effeithio ar yr amseru. Mae gan y Cyngor hanes da, a hanes sy'n gwella, o ymgynghori ar wasanaethau bws. Mae'r Ymgyrch dros Well Trafnidiaeth wedi llwyddo mewn adolygiad barnwrol i atal dyhead Cyngor Sir Gaergrawnt i leihau gwasanaethau bws gan fod y Cyngor wedi methu ag ymgynghori (o gwbl). Yn achos Sir Ddinbych, fel mewn mannau eraill yng Nghymru, mae amser yn dal yn bwysig iawn a hwyrach y bydd yn anymarferol ymgynghori'n llawn. Bydd ymgynghori'n cymryd o leiaf 28 diwrnod ychwanegol yn ogystal ag amser i asesu unrhyw ganlyniadau ac adrodd, yn ôl yr angen, i aelodau.

28. Yn ogystal ag aelodau lleol a chynghorau tref a chymuned, hwyrach y byddai'n ddoeth i ymgynghoriad gynnwys y Fforwm Cludiant Gwledig (RTF), yn ogystal ag un neu ragor o gymorthfeydd bws galw heibio.

29. O benderfyniad i ymgynghori, gallai'r amserlenni felly fod:

	Diwrnodau
Ymgynghoriad	28
Asesu/aelodau	28
Rhybudd i gontractwyr	28
Rhybudd i'r Comisiynydd Traffig	<u>56</u>
CYFANSWM	140

Yn seiliedig ar yr amserlen hon a dechrau tua diwedd mis Mehefin 2012, oni chytunwyd bod y newidiadau'n fwy brys, y newid cynharaf posibl yn yr amserlen fyddai mis Tachwedd 2012.

30. Yn destun cytundeb ffurfiol â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu a Chymunedau, hwyrach y bydd yn bosibl defnyddio tanwariant yn y gyllideb cludiant cartref i'r ysgol, wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Prifffyrdd a Seilwaith, i lyncu effaith penderfyniad hwyr, yn y flwyddyn gyntaf yn unig, am y cyfnod rhwng diwedd chwe mis trefniant pontio LIC a'r gweithredu ei hun. Byddai hyn yn costio £18,000.

Atodiad 3

Gwyrdd – dim newid wedi'i gynnig

Ambr – wrth gefn: £60,000 dros flwyddyn lawn

Coch – newidiadau niweidiol arfaethedig: £145,000 dros flwyddyn lawn

Tudalen 26

Gwasanaeth	O/I	Cymhorthdal y teithiwr	Sylwadau	Cynigion Haen 1	Arbed Haen 1	Cynigion Haen 2	Arbed Haen 2
1, 2	Rhuthun – yr Wyddgrug	£2.44	Perfformio'n dda o ran cost/teithiwr. Cludo myfyrwyr a gweithwyr i Ruthun ac i'r Wyddgrug	Dychwelyd i batrwm gwasanaeth 2008 (gan dynnu'n ôl gwerth un bus o wasanaeth gwaith adegau tawel)	£18,000		
X1	Rhuthun – yr Wyddgrug – Caer	£2.07	Gwasanaeth newydd o 2009 yn disodli gwasanaeth blaenorol Rhuthun-Caer a dynnwyd yn ôl ar ôl newidiadau gan Gyngorau Sir y Fflint a Gogledd Swydd Gaer a Chaer	Dim gweithredu			
P1	Cadole – Rhuthun	£0.00	Gweithredu diwrnodau ysgol yn unig a chludo myfyrwyr yn bennaf	Dim gweithredu			
5	Llangollen - Wrecsam	N/A	Cyfraniad at CBS Wrecsam am wasanaethau gyda'r nos. Deallir ei fod yn perfformio'n dda. Cefnogi economi ymwelwyr Llangollen	Dim gweithredu			
X5	Corwen – Rhuthun/Dinbych (0730 allan o Gorwen)	£4.73	Talir yn unigol am y siwrnai 0730 o Gorwen i Ddinbych ac, am wasanaeth rhyng-drefol, mae'n perfformio'n dda. Mae tua 17 o deithwyr am bob taith gan gynnwys gweithwyr a myfyrwyr ar gyfer Coleg Dinbych, Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Santes Ffraid	Dim gweithredu			

X5	Corwen – Rhuthun/Dinbych	£6.35 (adran Corwen)	Gwasanaeth gweddol wan ond yr unig un i'r gogledd o Gorwen ar gyfer Maes Afallen, Clawdd Poncen, Gwyddelwern, Pandy'r Capel, Bryn SM, Pwllglas a rhannau o Lanfair DC. Cryfach dros adran fer rhwng Corwen a Chlawdd Poncen	Adran Corwen-Rhuthun: Parhau i weithredu tua phob awr oherwydd byddai ei leihau i bob dwy awr yn arwain at fws/gyrrwr yn sefyll i lawr am awr o bob dwy awr. Tynnu'n ôl y siwrnai 1640 Ddydd Llun i ddydd Gwener o Ruthun a dychwelyd	£16,000		
				Adran Dinbych-Rhuthun: Mae hwn yn gweithredu ar y cyd bob hanner awr â'r X50. Lleihau i bob awr ar ddydd Sadwrn. Dim ffigurau cost/teithiwr ar gael. Tynnu siwrneiau dydd Sadwrn yn ôl i weithredu bob awr yn unig (llai o alw am y gwasanaeth hwn ar ddydd Sadwrn)	(Fel uchod)	Tynnu'n ôl y gwasanaethau adegau tawel bob hanner awr rhwng Rhuthun a Dinbych ond cadw'r gwasanaeth bob awr	£20,000
6	Gwasanaeth Tref Dinbych/Llanefydd	£1.23	Mae'r gwasanaeth hwn yn perfformio'n dda. Cyfraniad gan CBSC at Lanefydd. Dim newid yn y gwasanaeth. Rhywfaint o gyfle i gynyddu prisiau tocynnau o sail isel o 60c am docyn sengl i 80c (mae hyn yn dal yn llawer llai nag Arriva)	Diwygio prisiau tocynnau	£3,000		
10	Bodfari – Tremeirchion – Cwm – Dyserth – y Rhyl	£2.55	Perfformio'n rhesymol am wasanaeth bws gwledig. Fe'i cynyddwyd yn ddiweddar o dri i chwe diwrnod yr wythnos am fod rhaid i'r bws deithio i'r Rhyl ar gyfer gwasanaeth 47 beth bynnag.	Posiblwydd gwro un neu ddau ddiwrnod i Ddinbych ond byddai hyn yn golygu ychydig bach o gost ychwanegol am fod angen i'r cerbyd fod yn y Rhyl am 1045			
11	Nantglyn – Ysgol Uwchradd Dinbych – Ysgol Glan Clwyd	£0.00	Ariennir gan Addysg (gweithredu ar ddiwrnodau ysgol yn unig). Cludo myfyrwyr	Dim gweithredu			

11	Y Rhyl - Prestatyn – Treffynnon – y Fflint – Caer (gyda'r nos)	Amherthnasol	Cefnogi Cyngor Sir y Fflint i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd ond credir ei fod yn perfformio'n dda. Sylwer bod gwasanaeth y Sul yn cael ei weithredu'n awr gan Arriva yn fasnachol.	Dim gweithredu			
14	Dinbych – yr Wyddgrug	Disgwyl data Cyngor Sir y Fflint	Cludo myfyrwyr ond credir ei fod yn perfformio'n wael ar yr adegau tawel. Gostyngiad posibl i fws adegau tawel i bob dwy awr (mae'n mynd bob awr ar hyn o bryd)	Lleihau lefel y gwasanaeth mewn ymgynghoriad â Chyngor Sir y Fflint	£15,000		
19	Tref Prestatyn	Amherthnasol	Gwyro gwasanaeth 19 o ardal wledig gogledd-orllewin Sir y Fflint drwy faestrefi Prestatyn.	Dim gweithredu			
35	Taith gylchol y Rhyl – Prestatyn – Meliden – Dyserth – y Rhyl (gyda'r nos)	£0.85	Perfformio'n dda	Dim gweithredu			
35	Taith gylchol y Rhyl – Prestatyn – Meliden – Dyserth – (bob dydd Sul)	£0.65	Perfformio'n dda ac yn cyfrannu at economi'r Sul	Dim gweithredu			
37	Dyserth – Ysgol Uwchradd Prestatyn	£0.90	Perfformio'n dda. Cludo myfyrwyr	Dim gweithredu			
38	Gwasanaeth tref Prestatyn	Amherthnasol	Mewnlenni gwasanaethau ym Mhrestatyn	Tynnu'n ôl siwrneiau prynhawn Sadwrn	£5,000		
45/46	Y Rhyl – Bae Cinmel – Bodelwyddan – Ysbyty Glan Clwyd	£0.86	Perfformio'n dda. Cyfraniad gan CBSC.	Dim gweithredu			
47	Gwasanaeth tref y Rhyl	£2.55	Perfformio'n rhesymol o dda	Dim gweithredu			
X50	0750 Rhuthun – Wreccsam	£3.68	Perfformio'n rhesymol. Cludo gweithwyr a myfyrwyr	Mae ei angen o fis Medi i fis Rhagfyr ar ddiwrnodau coleg am fod hwn yn dyblygu i fyfyrwyr Sir Ddinbych sy'n mynychu Coleg Iâl. Mae'n bosibl ei dynnu'n ôl rhwng mis Ionawr a Gorffennaf ar ddiwrnodau coleg (bydd bws coleg Rhuddlan – Wreccsam yn cyflenwi).	£19,000		
X50	0700 Rhuddlan – Dinbych – Rhuthun – Wreccsam	£0.00	Ariennir drwy'r gyllideb cartref i ysgol (ar waith ar ddiwrnodau coleg yn unig). Cludo llawer o	Dim gweithredu			

			fyfyrwyr				
X50	0805 Dinbych - Rhuthun	£1.62	Perfformio'n dda. Cludo gweithwyr a myfyrwyr	Dim gweithredu			
50	Uwch y Dre i Ysgol Caer Drewyn	£0.00	Cludo myfyrwyr	Nid yw'r gweithredwr yn codi tâl ar hyn o bryd er nad yw disgyblion yn gymwys am gludiant am ddim. Gohiriwyd cyflwyno tâl oherwydd ad-drefnu ysgolion Edeirnion ond gellid ailgyflwyno mesurau posibl.	£3,000		
X50	0655 Rhuthun – Corwen – Cynwyd (Ffatri Ifor Williams)	£10.99	Perfformio'n wael. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cludo gweithwyr. Mae'r bws yn gweithredu wedyn ar wasanaeth Llandrillo/Cynwyd i Ysgol Dinas Brân a fyddai'n ofynnol i fyfyrwyr beth bynnag.	Dim gweithredu. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu fel symud safle cyn ac ar ôl y gwasanaeth ysgol a warchodir a byddai ei dynnu'n ôl yn dal yn golygu bod bws yn teithio allan o wasanaeth rhwng Rhuthun a Chynwyd/Llandrillo			
X50	Dinbych – Rhuthun – Wrecsam (dydd Sul)	£3.18	Perfformio'n rhesymol. Cludo gweithwyr sifft.	Dim gweithredu (hwyrach y bydd gofyn ail-dendro i sicrhau'r gwerth gorau am arian)			
X50/2	Y Rhyl – Dinbych – Rhuthun – Wrecsam	£1.51	Perfformio'n dda. Cludo gweithwyr sifft i Barc Highfield	Dim gweithredu (hwyrach y bydd gofyn ail-dendro i sicrhau'r gwerth gorau am arian)			
X52	Y Rhyl – Dinbych (nos Sul)	£4.80	Perfformio'n rhesymol o ystyried bod y gwasanaeth hwn yn cymryd drosodd ar ôl 2000/2100 bob nos (ar ôl i Arriva fasnacheiddio hyd yma). Cludo gweithwyr sifft i Barc Highfield	Dim gweithredu (hwyrach y bydd gofyn ail-dendro i sicrhau gwerth gorau am arian)		Lleihau gwasanaeth drwy dynnu'n ôl un bws nos	£15,000

54	Y Rhyl – Rhuddlan – Parc Busnes Llanelwy	1.41 (un daith ddychwelyd) neu £8.53 (ail daith ddychwelyd)	Mae un siwrnai ddychwelyd yn bris da ac felly'n cynnig gwerth da. Mae'r ail siwrnai ddychwelyd yn ddrutach ac felly'r gost wael am bob teithiwr. Perfformio'n wael. Darparu gwasanaeth yn unswydd i weithwyr a fyddai'n cael eu hynysu fel arall o Barc Busnes Llanelwy	Dim gweithredu (mae'r ddau'n cludo gweithwyr a fyddai fel arall yn cael eu hynysu o Barc Busnes Llanelwy)			
61	Llanefydd – Ysgol Uwchradd Dinbych ac Ysgol Glan Clwyd	£0.00	Diwrnodau ysgol yn unig ac yn cludo myfyrwyr yn bennaf	Dim gweithredu			
62	Llansannan/Bylchau/Groes a Nantglyn/Prion/Saron i Ddinbych	£6.24	Perfformio'n wael	Trafodaethau eisoes ar waith i ddisodli gwasanaeth bws â thacsi sy'n ymateb i alw (hwyrach na fydd yn gweithredu chwe diwrnod yr wythnos)	£8,000		
70/73/77	Betws GG, Clawdd, Clocaenog – Rhuthun / Gwasanaeth Tref Rhuthun / Llanelidan - Rhuthun	£7.43	Gostyngwyd y gwasanaethau hyn eisoes ar ôl tynnu'n ôl cyllid allanol ym mis Awst 2011. Y gwasanaethau hyn sy'n gyfyngedig bellach yw'r unig rai sy'n gwasanaethu'r ardal wledig i'r de a'r gorllewin o Ruthun. Mae gwelliannau a ariennir yn allanol yn ardal Betws GG/Melin y Wig yn cael eu trafod.	Dim gweithredu pellach ar ôl gostyngiadau Awst 2011 ac ychwanegiadau cyllid allanol posibl. Tynnu'n ôl y siwrneiau yn hwyrach y prynhawn	£5,000	Lleihau'r gwasanaeth i rai diwrnodau'r wythnos yn unig	£20,000
76	Dinbych – Llandyrnog – Llanbedr DC – Rhuthun – Graigfechan	£1.70	Perfformio'n dda	O bosibl tynnu'n ôl y gwasanaeth 1818 rhwng Dinbych a Rhuthun, nad yw'n cael ei ddefnyddio llawer, a/neu'r gwasanaeth dychwelyd 1910	£6,000		
83	Gwasanaeth Tref y Rhyl (Dydd Sul)	£1.91	Perfformio'n dda a chyfrannu at economi'r Sul	Dim gweithredu			
91/95/98	Melin y Wig – Corwen – Llangollen Melin y Wig – Corwen – Bryneglwys – Wrecsam Llangollen - Pentredŵr - Rhewl - Llandysilio	£4.98	Perfformio'n wael. Mae gwelliannau a ariennir yn allanol yn ardal Betws GG/Melin y Wig yn cael eu trafod	Dim gweithredu pellach yn dilyn ychwanegiadau cyllid allanol posibl		Cwtogi dau ddiwrnod yr wythnos ar y gwasanaeth	£8,000

X94	Cyfraniad at Arriva i wyro gwasanaeth X94 Wrecsam – Abermo drwy Gynwyd Llandrillo Cyfraniad at Gyngor Gwynedd ar gyfer nosweithiau a dyddiau Sul	Amherthnasol		Amodol ar benderfyniad Cyngor Gwynedd (gyda'r nos ac ar y Sul)	Adolygiad gyda Chyngor Gwynedd			
97	Llangollen – Pengwern (dydd Sadwrn)	£0.67			Dim gweithredu			
Tacsi sy'n ymateb i alw	Ardal Llanarmon yn lâl, Graianhyd, Eryrys i gwrdd â bus Wrecsam ym Mwlchgwyn	£25.00		Perfformio'n wael iawn ond yr unig gyswllt o ardal wledig wasgaredig â Wrecsam. Cost uchel y teithiwr ond dim ond ar alwad mae'n gweithredu ac mae'r costau gwirioneddol yn isel	Dim gweithredu			
Tacsi sy'n ymateb i alw	Gwasanaeth tacsi mewnlenni rhwng y Rhyl a Pharc Busnes Llanelwy (ar alwad)	£10.60		Perfformio'n wael. Darparu gwasanaeth yn unswydd i weithwyr a fyddai fel arall wedi'u hynysu o Barc Busnes Llanelwy	Dim gweithredu			
Tacsi sy'n ymateb i alw	Parc Busnes Llanelwy – y Rhyl (yn benodol i'r rheini sy'n gadael ystafell ddalfa'r heddlu)	£12.96		Perfformio'n wael. Gellid dadlau nad cyfrifoldeb y Cyngor ydyw (ni ellir ei gategoreiddio fel gwaith/myfyrwyr, siopa, cymdeithasol nac ymweld â ffrindiau a pherthnasau)	Tynnu'n ôl	£9,800		
Tacsi sy'n ymateb i alw	Dinbych – Llansannan/Nantglyn	£8.83		Darparu taith ddychwelyd prynhawn yn ystod gwyliau'r ysgol pan nad yw'r bus ysgol yn mynd	Tynnu'n ôl a'i gynnwys mewn cynigion ar gyfer 62	£800		
Tacsi sy'n ymateb i alw	Gwasanaeth tref Dinbych	£13.79		Perfformio'n wael. Darparu gwasanaeth siopa i'r rhannau hynny o'r dref nad all y bus eu cyrraedd.	Ei gynnwys mewn cynigion ar gyfer 62. Hwyrach na fydd yn bosibl ei weithredu bob dydd	£7,000		
Cynllun car cymdeithasol	Ardaloedd gwledig amrywiol	£1.67		Perfformio'n dda. Darparu ar gyfer siwrneiau hanfodol i'r rheini yn y gymuned nad allant ddefnyddio bus neu'r rheini nad oes bus ar eu cyfer. Gweithredir gan wirfoddolwyr	Dim gweithredu			
Galw'r Gyrrwr	Y Rhyl, Prestatyn, Llanelwy, Rhuddlan ac yn llai aml Dinbych	£0.94		Perfformio'n dda ond mae hyn yn adlewyrchu cyllidebau'r Cyngor ei hun ac nid ffynonellau cyllid eraill. Mae'r ffynonellau allanol hyn ar fin cael eu torri yn 2012/13	Dim gweithredu heblaw ceisio gwneud Galw'r Gyrrwr yn gadarnach			

Nightrider	Y Rhyl, Prestatyn, Llanellwyr, Rhuddlan	£2.59	Perfformio'n dda. Gwasanaeth ymateb i alw nos lau a nos Wener i bobl dros 50 nad ydynt fel arall yn mynd allan gyda'r nos	Dim gweithredu			
Swyddfa ymholiadau Gorsaf Fysiau'r Rhyl	Gorsaf fysiau'r Rhyl	Amherthnasol	Cyngor Sir Ddinbych yn talu rhent a chyfleustodau. Arriva sy'n staffio'r swyddfa ond mae wedi tynnu staff yn ôl bellach.	Rhybudd ar uned	£9,500		
Bws Crwydro Bryniau Clwyd	Gwasanaeth bws hamdden Sul yr Haf	Amherthnasol	Perfformio'n wael ond hefyd yn cael ei ariannu gan Gyngor Sir y Fflint a phartneriaid allanol. Costau'n isel. Dibynnol ar arianwyr eraill.	Dim gweithredu		Tynnu'n ôl	£5,000
Cyhoeddusrwydd	Amserlenni a chyhoeddusrwydd arall	Amherthnasol	Sicrhau bod cynifer o deithwyr yn gwybod am y rhwydwaith bws ac yn gallu ei ddefnyddio. Cefnogi gweithredwyr masnachol a chontract.	Dim gweithredu			
Llochesau	Mae grant LTSG yn darparu ar gyfer seilwaith bysiau	Amherthnasol	Gall hwn ychwanegu at gyllidebau cyfalaf a chynnal a chadw Cyngor Sir Ddinbych ei hun	Tynnu'n ôl y grant LTSG a defnyddio cyllid Cyngor Sir Ddinbych ei hun yn unig	£20,000		

Yn Adrodd i:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	14 Mehefin 2012
Aelod / Swyddog Arweiniol: Adfywio a Rheolaethol	Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio,
Awdur yr Adroddiad:	Uwch Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol
Teitl:	Effeithiolrwydd Gweithredu Gorfodaeth ynghylch baeddu gan gŵn

1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Mae'r aelodau'n gofyn am adroddiad ar ba mor effeithiol yw gweithredu gorfodaeth o fewn y Cyngor mewn perthynas â chŵn yn baeddu.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae'r Adroddiad yn trafod y dulliau a ddefnyddiwyd yn y gorffennol, a ddefnyddir ar hyn o bryd ac y bwriedir eu defnyddio yn y dyfodol o atal a chanfod baeddu gan gŵn yn Sir Ddinbych.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod yr Aelodau'n ystyried yr adroddiad ac yn cyflwyno sylwadau ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig â gorfodaeth baeddu gan gŵn.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Cefndir

Mae Baeddu gan Gŵn yn dal y niwsans cyhoeddus sy'n dod o dan "Trosedd Amgylcheddol" y ceir y mwyaf o gwynion yn ei gylch yn Sir Ddinbych. Mae'n cael effaith niweidiol ar fywydau trigolion ac ymwelwyr â'r sir. Mae tystiolaeth mai baeddu gan gŵn, mae'n debyg, yw'r niwsans sy'n ennyn y nifer mwyaf o gwynion i Awdurdodau Lleol yn genedlaethol.

Daw'r drosedd o Faeddu gan Gŵn o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Cŵn 1996 a Deddf Gwarchod yr Amgylchedd a Chymdogaethau Glân 2005. Gellir erlyn troseddwr mewn Llys Ynadon a'u dirwyo hyd at £1,000.

Gellir rhoi Rhybudd Cosb Benodol i droseddwr yn lle eu herlyn. Mae'n rhaid cynnig hynny ar ôl hysbysu'r troseddwr y bydd ef neu hi'n cael ei erlyn mewn Llys Ynadon.

Os bydd y cynnig yn cael ei dderbyn, yna mae'r rhybudd yn gytundeb y bydd y troseddwr yn talu £75.00 o fewn cyfnod o 28 diwrnod (a 7 diwrnod ychwanegol a ganiateir ar ddiwedd y 28 diwrnod)

Cytundeb yw'r rhybudd i ryddhau rhag dirwy ac nid yw'n gyfaddefiad o euogrwydd, euogfarn gofnodedig ac ni fydd yn golygu ymddangos yn y llys. Ar yr adeg yma bydd cyflwyniad o dystiolaeth yr erlyniad yn cael ei baratoi.

Cyfyngir y cyfnod erlyn am drosedd felly i 6 mis o'r dyddiad pan achoswyd y drosedd.

Mae gan weithwyr yr Awdurdod a Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu awdurdod i gyflwyno Rhybuddion Cosb Benodol yn dilyn cyfnod o hyfforddiant a phan fod ganddynt yr awdurdod perthnasol.

Cafodd nifer fawr o weithwyr yr Awdurdod hyfforddiant. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, dim ond Swyddogion Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol, Gwardeiniaid Cŵn ac i raddau llawer llai, Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu, sy'n cyflwyno Rhybuddion Cosb Benodol.

Does gan Swyddogion Gorfodaeth dim hawl i garcharu, ac mae pwerau Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu hefyd yn gyfyngedig.

Dim ond os yw safon y dystiolaeth yn cyfarfod â meini prawf gofynnol tystiolaeth y gellir cyflwyno Rhybudd Cosb Benodol ac mae'n rhaid bod digon o dystiolaeth i fod â siawns resymol o allu erlyn yn llwyddiannus mewn Llys Ynadon.

Mae cynnig Rhybudd Cosb Benodol yn ddewis arall er osgoi cost sylweddol i'r Awdurdod ac i'r Llysoedd. Dim ond os ystyrir fod y derbynnydd yn addas ac yn fodlon derbyn y cynnig y dylid cyflwyno Rhybudd.

Er y ffurfir cytundeb, bydd yn dal gan y derbynnydd hawl i newid ei feddwl a chyflwyno nodyn ynghlwm â'r Rhybudd yn gofyn am wrandawriad llys.

Mae'n ffaith fod nifer cynyddol o aelodau'r cyhoedd yn berchen dau gi yn hytrach nag un.

4.2 Gweithgareddau Gorfodaeth rhwng 2008 a heddiw

Ers 2008, mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych wedi mabwysiadu 'trefn orfodaeth gadarn'.

Yn hanesyddol, ychydig o swyddogion adran Wardeniaid Cŵn a Diogelwch Cymunedol oedd yn ymchwilio i gwynion o Faeddu gan Gŵn. Rhwng 2008 a Mai 2010 ychydig o adnoddau oedd ar gael ac yn amlwg ychydig o bwysigrwydd oedd yn cael ei roi ar ymdrin â'r drosedd.

Oherwydd galw cyhoeddus gosodwyd llawer mwy o bwyslais ar hyn ym mis Mai 2010 pan ddechreuodd y cynllun peilot Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol ar y Cyd.

Roedd problemau Troseddau Amgylcheddol yn eu hystyr ehangaf eu hystyried. Fodd bynnag, daeth yn amlwg mai troseddau, yn gyntaf baeddu gan gŵn ac, yn ail, taflu ysbwriel oedd rhai angen y mwyaf o sylw.

Mae mwy na 10 Swyddog Gorfodaeth wedi bod yn gweithio'n gyson ar yr hyn sy'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth.

Cafwyd cyfnod o addysgu trwy gyflwyno rhybuddion cyn dechrau erlyn y troseddau. Erbyn hyn mae trefn gadarn o 'oddef dim' wedi'i sefydlu.

Ar ddechrau'r Gweithgareddau Amgylcheddol misol yn Sir Ddinbych (a Chonwy) roedd hyd at 12 Swyddog Gorfodaeth, swyddogion eraill ag awdurdod a Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu'n gweithio'r benodol yn y Rhyl, Prestatyn, Dinbych a Llangollen yn cyflwyno Rhybuddion Cosb Benodol. Canolbwyntiwyd yn benodol ar yr ardaloedd hynny a oedd i'w gweld yn dioddef y mwyaf o broblemau (y Rhyl).

Cafwyd cryn lwyddiant wrth gyflwyno rhybuddion am faeddu gan gŵn ond nid oedd cymaint o lwyddiant gyda throeddau taflu ysbwriel. Dim ond ar hap yr oedd baeddu gan gŵn yn cael ei ddarganfod a daeth yn amlwg mai cudd wybodaeth fyddai'r allwedd i lwyddiant.

Rhoddwyd pwyslais mawr ar fod swyddogion unigol y tîm Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol yn ymchwilio i bob cwyn ynghylch baeddu gan gŵn gan gysylltu â'r person a gyflwynodd y gŵyn, gofyn am lanhau'r stryd ac erlyn y troseddwr.

Mae'n gyffredin bod swyddogion yn patrolio yn eu dillad eu hunain yn aml ac yn mynd â chwn i'w canlyn er mwyn ymdoddi i gefndir yr ardaloedd lle cyflawnir y troseddau.

Gwnaed gwaith ataliol arall megis holi o dŷ i dŷ mewn ardaloedd lle ceir cwynion, codi arwyddion newydd a biniau cŵn ac ysbwriel newydd yn lle hen rai. Rhannwyd 'bagiau baw cŵn' hefyd, yn rhad ac am ddim.

Daeth y llwyddiant mwyaf trwy ddefnyddio teledu cylch cyfyng mewn manau cyhoeddus i gyfeirio swyddogion i'r ardaloedd ble roedd troseddwr yn cael eu gweld â'u cŵn yn baeddu a chanolbwyntio patrols ar yr ardaloedd a oedd yn cael eu hystyried yn 'fannau poeth baeddu'. Roedd hynny hefyd yn golygu fod delweddau o'r troseddau yn cael eu recordio ac ar gael i swyddogion eu gweld. Roedd hynny'n eu galluogi i ganfod troseddwr a chyflwyno Rhybuddion Cosb Benodol.

Roedd swyddogion allan yn aml yn gynnar yn y bore a chyda'r nos sef yr adegau gorau i ganfod cerddwyr cŵn yn troseddu. Roedd swyddogion yn ymateb yn unol â gwybodaeth gan rai yn cwyno.

Anaml yr oedd yn werth chweil cynnal patrolau 'ad hoc' ac ystyrir eu bod yn wastraff ar adnoddau.

Gofynnwyd i bawb a gafodd eu cyfsweld ar ôl cyflwyno cwyn ynghylch cerddwyr cŵn yn troseddu i wneud datganiad tyst a bod yn barod i gyflwyno tystiolaeth lafar pe byddai angen. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, dim ond Swyddogion Gorfodaeth sydd erioed wedi cyflwyno tystiolaeth fel tyst. Fel arfer, cymdogion y troseddwyr sy'n cwyno ac yn dyst i'r troseddau, ac mae ofn dialedd neu aflonyddwch yn eu gwneud yn amharod i gyflwyno tystiolaeth. Mae'n well ganddyn nhw oddef canlyniad y baeddu na bod posibilrwydd o wrthdaro agored. Dyma'r ffaith a fydd hynny byth yn newid.

Roedd canfod pobl oedd yn caniatáu i'w cŵn faeddu'n cael ei ystyried yn waith cymharol hawdd cyn dechrau ar yr ymdrech barhaus ar ôl Mai 2010.

Daeth yn anoddach, yn y cyfnod ar ddiwedd 2010 a dechrau 2011, canfod troseddau o'r fath a sylweddolwyd y byddai'n rhaid cael ffyrdd eraill o ddal i roi pwysau ar ddatrys y broblem.

Roedd dal ati a rhywfaint o gyhoeddusrwydd da yn y cyfryngau'n anfon y neges fod rhybuddion cosb benodol yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i droseddwyr. Roedd gosod dirwy sylweddol yn ddigon o 'sioc' i bobl sylweddoli canlyniadau bod yn berchennog anghyfrifol ar gi .

4.3 Dulliau o atal a chanfod

Defnyddiwyd y dulliau canlynol, ac maen nhw'n dal i gael eu defnyddio, gan Orfodaeth Diogelwch Cymunedol yn Sir Ddinbych gyda gwahanol raddau o lwyddiant mewn atal a chanfod troseddau baeddu cŵn.

4.3.1 Rhybuddion Cosb Benodol

Mae rhybuddion yn dal i gael eu cyflwyno ond llai o ran nifer oherwydd bod pobl sy'n anwybyddu'r gyfraith yn deall yn iawn erbyn hyn fod gorfodaeth yn rymus ers Mai 2010. Daeth peidio â chlririo baw cŵn yn stigma gymdeithasol, sydd wedi achosi'r rhai sy'n dal i wrthod cydymffurfio i gyflawni'r drosedd ar ôl iddi dywyllu, allan o olwg y teledu cylch cyfun neu mewn ardaloedd lle na ellir eu gweld.

4.3.2 Cyhoeddusrwydd

Cafwyd peth diddordeb achlysurol ond byrhoedlog gan swyddfa'r wasg Cyngor Sir Ddinbych a chyhoeddusrwydd gennym ni'n hunain hefyd . Mae'r cyfryngau cenedlaethol yn sôn weithiau am beryglon iechyd posibl baw cŵn ac mae erthyglau a sylwadau yn y wasg leol wedi pwysleisio'r broblem a chodi ymwybyddiaeth.

4.3.3 Cyfranogaeth yr Heddlu / Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu

Mae ymgyrchoedd ar y cyd a chyfathrebu cyson gyda'r Heddlu wedi methu â chynnal diddordeb mewn chwilio am droseddwyr baeddu cŵn, waeth beth yw cyfarwyddid uwch swyddogion yr heddlu ac anogaeth Cyngor Sir Ddinbych.

4.3.4 TELEDU CYLCH CYFYNG

Mae'r teledu cylch cyfyng yn dal i gael ei ddefnyddio. Rhoddir sylw cyson i adroddiadau wythnosol teledu cylch cyfyng ar droseddau amgylcheddol. Mae ansawdd tystiolaeth ynghylch troseddau yn amrywiol o ran clirdeb y delweddau a'r dystiolaeth sy'n cael ei gyflwyno. Dim ond y digwyddiadau sy'n cyrraedd y safon gofynnol o brawf sy'n cael eu dilyn. Teledu Cylch Cyfyng yw'r ffordd orau o ddal troseddwyr.

4.3.5 Cyfathrebu gyda'r cyhoedd (addysg)

Wrth ymateb i gwynion lle nad oes digon o dystiolaeth yn gyffredinol neu nad oes neb yn fodlon rhoi tystiolaeth ysgrifenedig yn eu cylch, defnyddir dulliau amgen. Dosbarthir llythyrau yn yr ardal yn annog adrodd yn ôl ar ddigwyddiadau o faeddu, cudd wybodaeth ar droseddwyr a gwybodaeth i'r rhai sy'n amau y byddent yn cael eu herlyn ar ôl cael eu dal. Daeth archwiliadau amgylcheddol gydag unigolion a grwpiau ac annog plant mewn ysgolion yn ddulliau mwy effeithiol o addysgu. Yn ddiweddar, gosodwyd cystadlaethau mewn ysgolion i blant a'u teuluoedd a oedd yn boblogaidd iawn. Mae hyn yn ffordd werth chweil o daclo'r broblem a fydd yn derbyn mwy o bwyslais.

Mae presenoldeb cyson mewn cyfarfodydd trigolion a gweithgareddau cymdeithasol (adnoddau chwaraeon).

Mae bagiau cŵn yn cael eu rhoi mewn Siopau Un Stop, mewn Llyfrgelloedd ac i unigolion sy'n cael eu gweld yn clirio baw eu cŵn.

4.3.6 Mannau Cyhoeddus

Gwneir gwaith yn gyson i ymateb i geisiadau i glirio baw cŵn ac i gynnal archwiliadau mewn ardaloedd i weld a oes angen biniau ac arwyddion.

4.3.7 Contractwyr

Mae Sir Ddinbych wedi cyflogi llawer mwy ar gontractwyr preifat trwy asiantaethau cyflogaeth rhwng Mehefin 2011 ac Ionawr 2012 (a Chonwy hefyd, yn ddiweddar).

Cafodd y rhan fwyaf o rybuddion eu cyflwyno ynghylch ysbwriel. Roedd troseddau baeddu cŵn yn llai cyffredin a daeth yn hyd yn oed anoddach eu canfod drwy batrolio'n unig.

Daeth y ddau swyddog yn adnabyddus mewn ardaloedd o bryder a throeddwy'r posibl yn eu hadnabod er nad oedd unrhyw fath o adnabyddiaeth weladwy.

Rydym wedi cael cyhoeddusrwydd da wrth i aelodau'r cyhoedd ganmol y gwaith

Daeth gwaith contractwyr i ben oherwydd nad oedd digon o rybuddion yn cael eu cyflwyno i gynnal eu gwasanaeth.

Ers hynny, mae Swyddogion Diogelwch Cymunedol wedi ail ddechrau ar y gwaith unwaith eto.

Mae defnyddio camerâu pen i adnabod ac atal troeddwy'r anodd wedi bod yn llwyddiannus a bydd yn declyn hanfodol ar gyfer y dyfodol.

4.3.8 Ymchwilio i droeddau

Mae pob adroddiad i Gyngor Sir Ddinbych yn cael sylw gan ddefnyddio'r holl ddulliau uchod. Siaradir â phob cwynwr ynghylch ei b / phryderon ac mae'n cael gwybodaeth ar ganlyniad yr ymchwiliadau.

4.4 Casgliad

Yn ystod y cyfnod 2010 i 2011, cafodd 55 o Rybuddion Cosb Benodol am faeddu cŵn eu cyflwyno yn Sir Ddinbych.

Rhodddwyd 18 rhybudd cosb benodol yn ystod y cyfnod 2011 i 2012.

Cafodd 1 person ei erlyn am faeddu gan gŵn.

Cafodd pob dirwy Rhybudd Cosb Benodol eu talu.

Mae'n amlwg fod y llwyddiant blwyddyn gyntaf y peilot Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol wrth ganolbwyntio ar leihau baeddu gan gŵn wedi codi ymwybyddiaeth y cyhoedd fod cyflawni troedd o'r fath yn gallu arwain at erlyniad.

Heb os, mae'r gwarth o gael eu dal yn troeddu wedi bod yn rhan fawr mewn newid agwedd pobl. Mae mwy o anogaeth i adrodd ar ddigwyddiadau wedi bod rhywfaint yn wrth gynhyrchiol.

Mae nifer y cwynion wedi cynyddu ond mae nifer y Rybuddion Cosb Benodol wedi gostwng.

Mae yna dystiolaeth bob dydd o newid agwedd. Erbyn hyn mae perchnogion cŵn i'w gweld ym mhob rhan o'n sir yn clirio baw eu cŵn. Mae biniau ysbwriel a baw cŵn yn gorlifo.

Mewn cyrch ym mis Ebrill 2012 gan y tîm gorfodaeth Diogelwch Cymunedol gwelwyd 20 perchennog ci yn ddilynol yn clirio baw eu cŵn ac yn gwaredu'r bag yn briodol.

4.5 Argymhellion

Mae'n rhaid parhau i gyflwyno Rhybuddion Cosb Benodol er gwaethaf fod troseddu'n cael ei ystyried fwy nag erioed yn warth cymdeithasol a bod hynny'n ei wneud yn anos i'w ganfod. Bydd yna rai bob amser sy'n ceisio anwybyddu'r gyfraith ac mae tystiolaeth i awgrymu eu bod erbyn hyn yn fwy cudd a thwyllodrus o ran ble a phryd maen nhw'n gadael i'w cŵn i faeddu.

Fodd bynnag, nid cyhoeddi Rhybuddion Cosb Benodol yw'r ateb cyflawn i'r broblem.

Mae'n bwysig pwysleisio bod angen cudd wybodaeth i gasglu digon o dystiolaeth i gyfiawnhau erlyn ac mae'n bwysig hefyd cynnig Rhybudd Talu Cosb yn lle erlyn.

Bydd yn rhaid dal i ddefnyddio teledu cylch cyfyng i gasglu tystiolaeth o droseddu.

Dylid adolygu hyfforddiant swyddogion i sicrhau bod eu sgiliau ymchwilio ac adnabod troseddwy'r ac o ran safonau profi yn gwella.

Dylid hefyd adolygu amodau a'r gofyn am gontractwyr a swyddogion gorfodaeth wrth ymdrin â'r paragraff uchod o ran safonau prawf ac adnabod troseddwy'r.

Dylid rhoi mwy o bwyslais ar addysg mewn ysgolion ac yn y gymuned. Mae'n rhaid i'r cyhoedd dderbyn cyfrifoldeb am gefnogi trefniadau gorfodaeth.

Dylid ystyried paratoi Siarter ar gyfer cerddwyr cŵn a Siarterau tebyg gyda'r Awdurdod Lleol, Cymdeithasau Tai, busnesau a grwpiau eraill. (Defnyddir y rhain yn eang ac yn llwyddiannus iawn)

Mae'n rhaid cyfathrebu'n well â'r cyfryngau wrth adrodd ar erlyniadau, ymgyrchoedd a mentrau.

5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae gorfodaeth ar droseddau amgylcheddol, yn enwedig cŵn yn baeddu, yn cysylltu â blaenoriaethau "Adfywio ein Cymunedau" a "Dod yn Agosach at ein Cymunedau".

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amherthnasol

7. Pa ymgynghori a wnaed?

Dim

8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Ansicr?

9. Yr Hawl i Benderfynu

Dim angen penderfyniad - amherthnasol

Mae Erthygl 6.3.2(c) o Gyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu i bwyllgorau archwilio ystyried unrhyw beth sy'n effeithio ar yr ardal neu ar ei thrigolion.

Swyddog Cyswllt:

Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheolaethol
Ffôn 01824 706925

Adroddiad ar gyfer:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	Mehefin 14^{eg} 2012
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau/Pennaeth Gwasanaethau Tai
Awduron yr Adroddiad:	Swyddog Prosiect a'r Swyddog Strategaeth Tai
Teitl:	Llwybr Cyrchiad Sengl i Dai

1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

Mae'r adroddiad yn diweddarau aelodau ar ddatblygiad Llwybr Cyrchiad Sengl i Dai dros is-ranbarth Gogledd Ddwyrain Cymru, ac yn ceisio barn aelodau ar y Fframwaith Dyraniadau Cyffredin drafft cyn mynd ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus.

2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

- 2.1 I ddiweddarau aelodau ar y cynnydd a wnaethpwyd â phrosiect cydweithredol y Llwybr Cyrchiad Sengl i Dai ac i roi cyfle i ddylanwadu ar ei gyfeiriad yn y dyfodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 I aelodau ystyried y wybodaeth a ddarparwyd a rhoi argymhellion i hysbysu cyfeiriad y prosiect yn y dyfodol.

4. Manylion yr Adroddiad

Prosiect partneriaeth ydi'r Llwybr Cyrchiad Sengl i Dai rhwng pob un o'r prif landlordiaid cymdeithasol yng ngogledd ddwyrain Cymru, yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Cyngor Bwrdeistref Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Y partneriaid ydi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cartrefi Conwy, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Cymdeithas Tai Clwyd, Tai Gogledd Cymru a 'Wales and West Housing'.

Nod cyffredinol y Llwybr Cyrchiad Sengl i Dai ydi darparu llwybr cyrchiad cyffredin i ystod o opsiynau tai fforddiadwy sy'n dryloyw, yn gyfreithiol, effeithlon a hygyrch i bob rhan o'r gymuned.

Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno fframwaith dyraniadau cyffredin drafft. Mae'r drafft â thri phwynt ar ôl sydd angen eu setlo cyn ymgynghori. Mae'r rhain wedi eu gosod allan yn yr atodiad i'r briff sy'n atodol. Byddai'r Fframwaith Dyraniadau Cyffredin yn cyflawni'r nod o symleiddio'r dull o ymgeisio a'r gwasanaeth dyraniadau ar gyfer cwsmeriaid yn Sir Ddinbych a siroedd cyfranogol eraill gan olygu y byddai pobl yn ymgeisio unwaith i gael eu blaenoriaethu gan bob landlord cymdeithasol yn y sir mewn ffordd sy'n gyson.

Elfennau allweddol y Fframwaith Dyraniadau Cyffredin Drafft

- Fe asesir yr angen am dai'n gyson ar draws y rhanbarth, gan ddarparu tegwch a chysondeb i'r cwsmer, gan ystyried anghenion unigol pobl a'u dewisiadau a fynegwyd. Mae diffiniad angen am dai'n seiliedig ar y cysyniad cyfreithiol o ffafriaeth resymol. Mae'r dull a fabwysiadwyd yn defnyddio'r pwerau cyfreithiol pellach i flaenoriaethu gydag ymgeiswyr â hawl i ffafriaeth resymol yn ôl cysylltiad lleol ac angen brys.
- Mae partneriaid yn rhannu un gofrestr ac felly bydd angen i ymgeisydd wneud dim ond un cais i gyrchu'r system gyfan. Bydd pob partner mewn ardal a ddewiswyd gan ymgeisydd yn ymwybodol o'r cais ac yn gallu rhoi'r flaenoriaeth briodol i'r ymgeisydd yn y broses o ddyrannu.
- Mae'r fframwaith dyraniadau drafft yn mabwysiadu cynllun bandio i flaenoriaethu pobl sydd angen tai, yn dilyn yr egwyddorion cyfreithiol o ran ffafriaeth resymol, ffafriaeth ychwanegol a chysylltiad lleol.
